

IEITHOEDD Y DYFODOL

Yr ieithoedd tramor sydd eu hangen ar y Deyrnas Unedig
er mwyn bod yn wirioneddol fyd-eang

www.britishcouncil.org



Cysylltwch â ni er mwyn derbyn cyhoeddiadau mewn fformat gwahanol, i wneud cais am gopi caled, neu i roi adborth: externalrelations@britishcouncil.org

Argraffiad 2017 o adroddiad leithoedd y Dyfodol yw hwn.
Mae'n ddiweddariad o argraffiad 2013 y British Council.

Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan y British Council, a'i baratoi gan Teresa Tinsley a Kathryn Board o Alcantara Communications.



Mae **Teresa Tinsley** yn ieithydd sydd â thros 30 mlynedd o brofiad mewn sefydliadau cenedlaethol sy'n ymroddedig i addysg ieithoedd. Yn y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer leithoedd, CILT, roedd yn arwain ar weithgarwch gwybodaeth, ymchwil a chyhoeddiadau'r sefydliad. Sefydlodd gyfres o adroddiadau CILT, 'Tueddiadau leithoedd', a chynhyrnod ystadegau a datblygiadau polisi a gyhoeddwyd fel Blwyddlyfrau leithoedd 1995–2007. Roedd yn rhan o amryw o brosiectau ymchwil Ewropeaidd ar amlieithedd, ac roedd yn aelod o grŵp 'leithoedd mewn Addysg a Hyfforddiant' y Comisiwn Ewropeaidd. Ers sefydlu Alcantara Communications, mae hi wedi arwain ar ymchwil polisi ar faterion ieithyddol i gleientiaid, gan gynnwys yr Academi Brydeinig a'r Ymddiriedolaeth Addysg CFBT.

Roedd **Kathryn Board** yn Brif Weithredwr i CILT, y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer leithoedd, ers 2008 ac mae hi wedi gweithio gydag arbenigwyr ac ystod eang o sefydliadau addysgol i roi cyngor ar bolisi addysgol ynghyd ag ar fentrau sydd â'r nod o gynyddu lefelau dysgu ieithoedd ar draws y Deyrnas Unedig. Cyn ymuno â CILT, treuliodd 30 mlynedd yn gweithio i'r British Council mewn nifer o rolau rheoli a rhyngwladol. Erbyn hyn mae hi wedi ymddeol yn rhannol, ond yn parhau i weithio ar brosiectau ymchwil lle gallai gynnig ei harbenigedd.

Mae **Alcantara Communications** yn darparu arbenigedd i sefydliadau cenedlaethol a rhyngwladol, i gwmnïau preifat ac i gyrff trydydd sector ar bolisiau addysg ieithoedd, amlieithedd a ieithoedd mewn cyflogaeth, ac yn cynnal ymchwil a dadansoddiadau yn y maes hwn.

CYNNWYS

Ynglŷn â'r British Council	1
Rhagair	3
Crynodeb gweithredol	4
Cyflwyniad	6
Her ieithyddol y Deyrnas Unedig	8
Nodi'r ieithoedd y mae ar y Deyrnas Unedig eu hangen	14
Casgliadau ac argymhellion	32
Y deg prif iaith	34
Atodiad	54

YNGLŶN Â'R BRITISH COUNCIL

Y British Council yw sefydliad rhwngwladol y Deyrnas Unedig ar gyfer cysylltiadau diwylliannol a chyfleoedd addysgol. Rydym yn creu dealltwriaeth gyfeillgar rhwng pobl y Deyrnas Unedig a gwledydd eraill. Rydym yn gwneud hyn drwy wneud cyfraniad cadarnhaol i'r Deyrnas Unedig a'r gwledydd rydym yn gweithio â nhw – rydym yn newid bywydau drwy greu cyfleoedd, adeiladu cysylltiadau a meithrin hyder.

Rydym yn gweithio â thros 100 o wledydd ar draws y byd ym meysydd celf a diwylliant, Saesneg, addysg a chymdeithas sifil. Y llynedd, cyrhaeddum dros 65 miliwn o bobl yn uniongyrchol, a 731 miliwn o bobl i gyd, yn cynnwys drwy ddarllediadau, cyhoeddiadau ac ar-lein. Cawsom ein sefydlu ym 1934, ac rydym yn elusen yn y Deyrnas Unedig a lywodraethir gan Siarter Frenhinol ac rydym yn gorff cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig.

www.britishcouncil.org

www.britishcouncil.org/organisation/policy-insight-research

 @InsightBritish

未来的语言

MEITHHOEDD

ЯЗЫКИ ДЛЯ БУДУЩЕГО

AR GYFER Y

TALLEN VOOR DE
TOEKOMST

لغات للمستقبل

LINGUE PER IL
FUTURO **SPRACHEN FÜR DIE**

DYFODOL

IDIOMAS PARA EL FUTURO

LANGUES POUR LE FUTUR

ZUKUNFT

LÍNGUAS PARA O FUTURO

RHAGAIR

Mae perthynas arfaethedig y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd yn flaenllaw ym meddyliau pobl ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nid dyma'r unig beth sy'n bwysig i'r wladwriaeth. Gall y Deyrnas Unedig gael y ddêl Brexit orau bosibl, ond ni fydd hyn fawr o bwys os nad yw'r sylfeini sydd gennym yma'n ddigonol, a all olygu na fydd modd manteisio ar y posibiladau sydd ar gael ar draws y byd.

Mae hyn yn golygu bod angen gwella sail sgiliau gweithlu yfory, fel bod y genhedlaeth nesaf wir yn gallu arwain y ffordd wrth sicrhau mai'r Deyrnas Unedig yw'r lle gorau i wneud busnes, gartref ac o amgylch y byd.

Wrth i'r Deyrnas Unedig anelu at ddyfnhau ac ehangu ei chysylltiadau masnachu â gwledydd eraill, mae'n rhaid i fusnesau geisio dod yn fwy cystadleuol. Er mwyn cynyddu cynhyrchiant, mae angen gweithlu sydd â'r set gywir o wybodaeth a'r sgiliau technegol er mwyn i'r Deyrnas Unedig ffynnu. Mae hyn yn cynnwys y gallu i weithio mewn marchnad amlieithog ac amrywiol yn ddiwylliannol, gan alluogi cwmnïau i feithrin cysylltiadau ar draws ffiniau.

Fodd bynnag, nid yw ein capasiti ieithoedd tramor yn y man y mae angen iddo fod eto. Mae'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n dewis ieithoedd mewn ysgolion wedi arafu, ac mae hyn yn golygu bod pobl ifanc yn cyrraedd y gweithlu heb ddigon o sgiliau iaith.

Rydym wedi galw ers cryn amser yn Siambrau Masnach Prydain y dylai ieithoedd tramor ddod yn orfodol mewn ysgolion i blant rhwng saith ac 16 oed. Mae ein hymchwil wedi dangos nad oes llawer o bobl fusnes sy'n ddigon hyderus i arwain trafodaethau yn iaith y prynwr, ac mae'r rheiny nad ydynt yn allforio yn gweld eu diffyg gallu mewn iaith arall fel rhwystr rhag gwneud hynny.

Mae'r adroddiad amserol hwn yn amlygu cwestiynau pwysig, ac yn ystyried pa ieithoedd fydd bwysicaf ar gyfer ein ffyniant a'n dylanwad yn y dyfodol. Fel awdurdod y byd mewn dysgu Saesneg, mae'n adrodd cyfrolau bod y British Council hefyd yn cefnogi'r angen i symud oddi wrth y ddiabyntiaeth ar Saesneg fel lingua franca.

Gall busnesau wneud mwy i bwysleisio gwerth sgiliau ieithoedd tramor, a dylent wneud hynny. Mae gan y llywodraeth, darparwyr addysg ac unigolion hefyd rôl bwysig i'w chwarae. Mae'n rhaid i ni weithio gyda'n gilydd i sicrhau y gall y Deyrnas Unedig fynd i'r afael â'r diffyg ieithyddol hwn yn effeithiol, a fydd yn helpu'r Deyrnas Unedig i gysylltu a masnachu'n agored â'r byd, a sicrhau ein ffyniant yn y dyfodol.



Adam Marshall

Dr Adam Marshall
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Siambrau Masnach Prydain

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r Deyrnas Unedig wedi cyrraedd trobwynt. Mae'n paratoi i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE), proses a fydd yn newid nid yn unig ei pherthynas â gwledydd yr UE yn llwyr, ond hefyd ei pherthynas â gwledydd eraill y byd.

Mae ymgais y Deyrnas Unedig i ddod yn bartner masnachu rhyngwladol y tu hwnt i Ewrop yn fater o frys o ganlyniad i Brexit, ac mae'n amlygu ar yr un pryd bwysigrwydd parhau i gydgyssylltu â'n cymdogion yn Ewrop. Ymhlith y sgiliau a'r gallu y bydd ar y Deyrnas Unedig eu hangen, bydd dealltwriaeth o ddiwylliannau a ieithoedd eraill yn parhau i fod yn bwysig i sicrhau perthnasau rhyngwladol llwyddiannus ar bob lefel. Bydd angen i ni ymestyn y tu hwnt i Saesneg, y tu mewn a'r tu allan i Ewrop, nid yn unig i gynnal a gwella ein safle economaidd, ond i feithrin hyder, dyfnhau dylanwad rhyngwladol a pherthnasau diwylliannol, ac i gadw ein gwlad yn ddiogel. Ond pa ieithoedd sydd fwyaf o'u hangen arnom?

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar ddimensiwn ieithyddol newidiadau pellgyrhaeddol sydd ar waith, ac ar y rhagolygon o ran y cyflenwad a'r galw am gymhwysedd ieithyddol yn y blynyddoedd i ddod. Mae'n ddiweddariad o adroddiad 2013 y British Council, *Ieithoedd y Dyfodol*, a oedd yn darparu'r dadansoddiad systematig cyntaf o anghenion ieithyddol y Deyrnas Unedig, gan edrych ar ystod o ddangosyddion economaidd, geoleidyddol, diwylliannol ac addysgol, ac yn sgorio gwahanol ieithoedd yn ôl y rhain. Mae'n nodi pa ieithoedd fydd o wir bwysigrwydd ar gyfer ffyniant, diogelwch a dylanwad y Deyrnas Unedig yn y byd yn y dyfodol.

Y dangosyddion a ddefnyddiwyd er mwyn ystyried ffactorau economaidd ac anfasnachol:

- Allforion cyfredol y Deyrnas Unedig
- Anghenion iaith busnesau'r Deyrnas Unedig
- Blaenoriaethau masnachu'r dyfodol
- Marchnadoedd twf uchel sy'n dod i'r amlwg
- Blaenoriaethau llysgenhadol a diogelwch
- Diddordebau ieithyddol y cyhoedd
- Twristiaeth i mewn ac allan
- Ymgysylltu addysgol rhyngwladol
- Lefelau gallu Saesneg mewn gwledydd eraill
- Mynychder ieithoedd eraill ar y we

Mae'r adroddiad yn defnyddio ffynonellau a gyhoeddwyd ar ôl refferendwm Mehefin 2016, ac mae'n defnyddio methodoleg a sail dystiolaeth debyg i adroddiad 2013. Mae'r adroddiad wedi cynhyrchu rhestr o'r deg iaith bwysicaf i'r Deyrnas Unedig gyfan. Mae'r drefn yn ystyried i ba raddau mae pobl mewn gwledydd eraill yn gallu'r Saesneg, ac mae'n nodi nad oes cynnydd cyson wedi bod yn hynny o beth ers 2013.

Fel yn 2013, mae'r un pum iaith: Sbaeneg, Mandarin, Ffrangeg, Arabeg ac Almaeneg, oll yn cyrraedd brig y tabl. Mae'r pum iaith hon yn ymddangos yn gyson fel y rhai pwysicaf, a chryn dipyn o flaen y pum iaith arall. Yn ail hanner y tabl

mae Eidaleg, Iseldireg, Portiwgaleg, Japaneg a Rwsieg. Mae Rwsieg a Phortiwgaleg wedi gostwng mewn pwysigrwydd ers ein dadansoddiad blaenorol, ac mae Twrceg wedi gadael y deg uchaf ac wedi'i disodli gan Iseldireg. Caiff y newidiadau hyn eu hachosi gan newidiadau yn amgylchiadau economaidd a gwleidyddol Rwsia, Twrci a Brasil, ac nid ydynt yn gysylltiedig â Brexit.

Trefn	Iaith
1	Sbaeneg
2	Mandarin
3	Ffrangeg
4	Arabeg
5	Almaeneg
6	Eidaleg
7	Iseldireg
8	Portiwgaleg
9	Japaneg
10	Rwsieg

Ymhlith yr ieithoedd eraill a dderbyniodd sgôr uchel, a all gynyddu mewn pwysigrwydd yn y dyfodol, mae Pwyleg, Maleieg, Hindi ac ieithoedd eraill yn India.

Gyda dim ond ychydig dros draean o bobl Prydain yn adrodd eu bod yn gallu cynnal sgwrs mewn iaith arall, mae gallu ieithyddol y Deyrnas Unedig yn parhau i fod yn destun pryder. Mae darpariaeth ieithyddol mewn nifer o ysgolion a phrifysgolion yn ymddangos yn gynyddol fregus, mae cyfleoedd i ddysgu ieithoedd mewn llwybrau galwedigaethol yn brin iawn, a safle ymylol iawn sydd gan rai o'r ieithoedd rydym yn debygol o fod arnynt eu hangen fwyaf yn y dyfodol yn ein systemau addysg. Gall gallu ieithyddol y Deyrnas Unedig, sydd eisoes yn gyfyngedig, waethgu eto yn sgil anawsterau cynyddol wrth recriwtio ieithyddion brodorol o dramor unwaith i ni ymadael â'r UE.

Mae pedair gwlad y Deyrnas Unedig wedi mynd i'r afael â pholisi ar addysg ieithoedd mewn gwahanol ffyrdd, sy'n adlewyrchu eu gwahanol amgylchiadau ieithyddol, a byddant yn parhau i wneud hynny. Ond dylai pob un gydnabod bod diffyg ieithoedd cyffredinol y Deyrnas Unedig yn berygl i'n gallu cyffredinol i fod yn gystadleuol ac yn ddylanwadol, yn berygl i'n safle yn y byd ac i allu ein dinasyddion i chwarae rôl ystyrlon yn yr economi fyd-eang mewn byd sy'n gynyddol rhwydweithiol. Rydym nawr wedi cyrraedd pwynt hollbwysig lle bydd buddsoddi yn y gwaith o ddiweddarau sgiliau iaith y Deyrnas Unedig, sy'n rhoi mynediad heb ei debyg i wybodaeth a dealltwriaeth ddiwylliannol, yn dwyn ffrwyth. Bydd y dasg hon yn cynnwys unigolion, busnesau a chyflogwyr, ynghyd â phedair llywodraeth y Deyrnas Unedig. Rydym yn argymhell y canlynol:

- Nawr yw'r amser i ddechrau polisi mentrus newydd i wella addysg ieithoedd modern, er mwyn sicrhau 'Prydain fyd-eang' wedi'i thrawsnewid. Mae'n rhaid i gefnogaeth ar gyfer polisi o'r fath

fod yn un drawslywodraethol a thrawsbleidiol, gyda ffocws ar wella capasiti ieithyddol yn gyson dros y tymor canolig a'r tymor hir.

- Dylai sgiliau iaith ffurfio rhan hanfodol o'r adolygiad strategol o sgiliau y bydd y Deyrnas Unedig ei angen ar ôl Brexit, a dylai ystyried unrhyw golledion posibl o gapasiti ieithyddol o ganlyniad i lai o fewnfudo o Ewrop ac ymhellach. Mae'n hanfodol bod adolygiad o'r fath yn cynrychioli buddiannau sefydliadau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, a bod cyflogwyr a darparwyr iaith yn gweithio ar y cyd i sicrhau y caiff anghenion busnes a sefydliadol o ran capasiti ieithyddol eu bodloni.
- Dylai'r llywodraeth a busnesau ddarparu cyngor gwell i gwmnïau ar ddefnyddio a rheoli sgiliau iaith, yn enwedig mewn perthynas â chyflawni cynnydd o ran allforio. Dylid defnyddio a datblygu talent ieithyddol pobl ar wasgar a chymunedau lleiafrifol y Deyrnas Unedig yn llawn.
- Dylai'r pedair llywodraeth yn y Deyrnas Unedig flaenoriaethu dysgu'r pum prif iaith a nodir yn yr adroddiad fel rhai sy'n gyson bwysig, a defnyddio dull strategol o adeiladu capasiti yn Arabeg, Tsieinëeg Mandarin, ynghyd â Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg. Mae cyfleoedd i ddefnyddio dulliau llwyddiannus y Rhaglen Arbenigedd Mandarin yn Lloegr a strategaeth Tsieina yr Alban.
- Dylai ysgolion flaenoriaethu dysgu ieithoedd ynghyd â phynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM), a rhoi pob cyfle i ddisgyblion ddatblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o ieithoedd a diwylliannau eraill.
- Dylai adrannau addysg a rheoleiddwyr weithio ar y cyd i sefydlu gofynion amser y dylid ei dreulio yn dysgu ieithoedd ar lefel cynradd ac uwchradd, a sicrhau y glynir atynt. Yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, dylent geisio gwneud dysgu ieithoedd yn statudol mewn ysgolion cynradd, fel sydd eisoes yn wir yn Lloegr a'r Alban.
- Dylai darparwyr addysg ystyried yr angen yn y dyfodol am gapasiti rhyngwladol ar ôl Brexit, a dylai arbenigedd mewn ieithoedd a diwylliannau yn ein sector prifysgol gael ei warchod yn strategol.
- Dylai darparwyr addysg bellach ac addysg uwch ddatblygu eu cynnig o fodiwlau ychwanegol neu unedau cyfunol ar gyfer ieithoedd o fewn cyrsiau galwedigaethol a chyrtsiau gradd, ac annog y myfyrwyr i'w dewis.
- Dylai unigolion (yn rhieni, pobl ifanc ac oedolion) ystyried yr angen i ddysgu ieithoedd, a manteision gwneud hynny, a chymryd cyfrifoldeb am eu dysgu drwy'r system addysg ffurfiol, darparwyr preifat, neu'r lluo o adnoddau dysgu ieithoedd sy'n rhad ac am ddim.
- Dylai swyddogion negodi llywodraeth y Deyrnas Unedig ddiogelu a blaenoriaethu rhaglenni cyfnewid addysg yn y gwaith negodi wrth ymadael â'r UE, a sicrhau eu parhad. Gwneir hyn yn ddelfrydol drwy sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn cadw aelodaeth lawn yn rhaglen Erasmus+, neu os nad yw hyn yn bosibl, drwy geisio atgynhychu ei buddiannau drwy drefniadau dwyochrog sydd o leiaf yn gyfwerth.
- Dylai llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon enwebu a phenodi aelod iaith ar lefel y Cabinet.

CYFLWYNIAD

Wrth i'r Deyrnas Unedig ddechrau ar gyfnod newydd o gydweithio ag Ewrop, a chyda gweddill y byd, bydd y graddau y gallwn gyflawni'r weledigaeth o Deyrnas Unedig sy'n wirioneddol fyd-eang yn y tymor hir yn dibynnu ar ein gallu i lwyddo mewn amgylchedd rhyngwladol cystadleuol, ac i ddeall a chysylltu â phobl ar draws y byd.

Mae ymwybyddiaeth a gallu rhyngwladol yn dod yn gynyddol bwysig, nid yn unig ar gyfer llwyddiant y Deyrnas Unedig ar lwyfan byd-eang, ond ar gyfer llwyddiant busnesau, sefydliadau ac unigolion. Caiff y gallu i weithredu mewn mwy nag un iaith ei weld, nid yn unig fel modd o alluogi gweithrediad masnachol syml, ond fwyfwy fel elfen hanfodol mewn set o sgiliau, nodweddiad a gwybodaeth sydd eu hangen ar gyfer llwyddo yn y byd heddiw.¹ Mae ieithoedd yn dyfnhau dealltwriaeth ddiwylliannol ac yn agor drysau i brofiadau a chyfleoedd rhyngwladol i unigolion, i fusnesau ac i'r llywodraeth. Mae arweinyddwyr busnesau ac ymchwilwyr wedi honni ers cryn amser, waeth pa mor bwysig yw'r Saesneg fel lingua franca rhyngwladol, bod angen mwy na Saesneg er mwyn llwyddo ym maes masnachu'n rhyngwladol, a bod y gallu i adeiladu perthnasau a deall

diwylliannau eraill yn elfennau hanfodol er mwyn llwyddo. Dangosodd ymchwil ar gyfer Masnach a Buddsoddi y DU bod diffyg sgiliau iaith, a'r tueddiad i ragdybio y bydd partneriaid busnes rhyngwladol yn siarad Saesneg, yn costio oddeutu 3.5% o gynnyrch domestig gros i economi'r Deyrnas Unedig.² Mae ein gwasanaethau diogelu, ein corfflu diplomyddol a busnesau twristiaeth oll yn dibynnu ar sgiliau mewn ieithoedd heblaw am Saesneg. Nid oes amheuaeth y bydd sgiliau iaith yn parhau i fod yn bwysig i sicrhau perthnasau rhyngwladol llwyddiannus ar bob lefel. Ond pa ieithoedd y mae ar y Deyrnas Unedig eu hangen fwyaf?

Yn 2013, cynhaliodd y British Council y dadansoddiad systematig cyntaf o'r 'ieithoedd y mae ar y Deyrnas Unedig eu hangen fwyaf a pham', drwy ddefnyddio meini prawf economaidd

ac nad ydynt yn economaidd, a thrwy ddefnyddio ystod o ffynonellau gyda'r nod o daflu goleuni ar ba ieithoedd oedd fwyaf tebygol o gefnogi anghenion a dyheadau gwledydd Prydain dros yr 20 mlynedd nesaf.

Mae pob iaith, wrth gwrs, yr un mor werthfawr o safbwynt ieithyddol, ac mae gallu mewn unrhyw iaith yn ychwanegol i famiaith yn ehangu dealltwriaeth ddiwylliannol ac yn cynyddu gallu i gyfathrebu. Fodd bynnag, mae'r rheiny sy'n bwriadu rhoi o'u hamser a'u hadnoddau i ddysgu iaith – p'un ai'n wleidyddion, yn drethdalwyr, yn rhieni neu'n ddysgwyr – yn parhau i geisio cyngor ar ble gellir ffocysu'r ymgais honno'n fwyaf effeithiol.

'Os yw'r Deyrnas Unedig am fod yn llwyddiannus yn masnachu'n agored yn fyd-eang, bydd angen i fwy o'i phobl allu cyfathrebu'n ddigonol yn y marchnadoedd newydd hynny.'

Arolwg Addysg a Sgiliau CBI/Pearson 2017³

1. British Council (2013) *A World of Experience*. Ar gael drwy: <https://www.britishcouncil.org/organisation/policy-insight-research/research/world-experience>
2. James Foreman-Peck a Yi Wang (2014) *The Costs to the UK of Language Deficiencies as a Barrier to UK Engagement in Exporting: A Report to UK Trade & Industry*. Ysgol Busnes Caerdydd
3. CBI/Pearson (2017) *Helping the UK thrive*, Arolwg Addysg a Sgiliau 2017, tudalen. 34. Ar gael drwy: www.cbi.org.uk/insight-and-analysis/helping-the-uk-thrive/

Bydd ymadael â'r UE yn golygu y bydd mwy o bwyslais ar berthnasau dwyochrog rhyngwladol, gyda'r partneriaid sydd agosaf atom ar hyn o bryd a chyda'r gwledydd hynny rydym yn gobeithio dyfnhau ein perthynas â nhw. Gall hyn gyfyngu ar y graddau y gallwn ddibynnu ar Saesneg fel lingua franca, gan fod angen iaith y ddwy wlad ar gyfer cyfathrebu a diplomyddiaeth mewn perthynas ddwyochrog. Mae Brexit, felly, yn codi rhai cwestiynau pwysig am ein sylfaen sgiliau ieithoedd, a'r modd y bydd hyn yn cefnogi anghenion a dyheadau gwledydd Prydain mewn blynyddoedd i ddod:

- A fydd mwy neu lai o angen yr ieithoedd a ddysgir amlaf yn ysgolion y Deyrnas Unedig – Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg?
- A fydd cyfyngiadau ar recriwtio o'r UE, a all arwain at brinder sgiliau iaith a rhagor o angen i wladolion Prydeinig weithio mewn ieithoedd eraill heblaw Saesneg?
- Wrth i ni geisio ffurfio perthnasau newydd a dyfnach â gwledydd eraill ar draws y bydd, a fydd galw am ystod ehangach o ieithoedd y byd?

Ac yn hollbwysig:

- A fydd ein perthnasau rhyngwladol yn y dyfodol yn cael eu pennu yn ôl y graddau y mae gwledydd eraill yn fodlon ac yn gallu defnyddio Saesneg fel modd o gyfathrebu?

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar ddimensiwn ieithyddol y newidiadau pellgyrhaeddol sydd ar waith, ac ar ragolygon o'r cyflenwad a'r galw am gymhwysedd iaith yn y blynyddoedd i ddod. Mae'n seiliedig ar adolygiad trylwyr o'r ymchwil a gynhaliwyd yn 2013, drwy ddefnyddio methodoleg a sail dystiolaeth debyg, a thrwy ddefnyddio data diweddarach a gyhoeddwyd ar ôl refferendwm Mehefin 2016. Rydym yn cydnabod yr ansicrwydd mewn gwleidyddiaeth rhyngwladol a'r cyflymder y mae blaenoriaethau'n newid. Yn 2017, mae'r tirlun rhyngwladol wedi dod yn fwy anrhagweladwy fyth os rhywbeth, ac ar yr adeg rydyn ni'n cyhoeddi'r adroddiad hwn mae llawer o agweddau perthynas arfaethedig y Deyrnas Unedig â gwledydd yr UE yn dal i fod heb eu pennu. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio'r diffyg gallu i ragweld fel esgus i osgoi mabwysiadu safbwynt strategol er mwyn blaenoriaethu a buddsoddi wrth baratoi am y dyfodol. Mae'r amser a'r buddsoddiad sydd ei angen i ddysgu iaith yn gofyn am safbwynt tymor canolig o leiaf. Ein nod yw darparu adolygiad clir a systematig o'n hanghenion ieithyddol tebygol, a chynnig deunydd ar gyfer trafodaeth wybodus ar bolisi a darpariaeth addysg ieithoedd yn y tymor canolig i'r tymor hir.

HER IEITHYDDOL Y DEYRNAS UNEDIG

Bydd ymadael â'r UE yn arwain at newidiadau mawr ym marchnad lafur y Deyrnas Unedig. Bydd ein gallu i lwyddo mewn amgylchedd byd-eang cystadleuol yn fwy dibynnol fyth ar weithlu sy'n addas at ei ddiben.

O fewn y cyd-destun hwn, mae gallu ieithyddol yn llawer mwy nag arf ychwanegol; yn hytrach, mae'n hanfod ac yn hwyluswr ar gyfer datblygu sbectwm eang o sgiliau a nodweddion hanfodol eraill. Canfu astudiaeth ddofn a oedd yn defnyddio safbwyntiau dros 600 o gyflogeion fod pobl y Deyrnas Unedig sydd heb sgiliau iaith ar eu colled, nid yn unig gan eu bod wedi'u cyfyngu o ran eu gallu i gyfathrebu, ond oherwydd diffyg mynediad at brofiad gwaith tramor, diffyg synnwyr busnes rhyngwladol, a methiant i werthfawrogi fod gan ddiwylliannau


eraill ffyrdd gwahanol o wneud pethau, a chamddealltwriaeth o bwysigrwydd diwylliant Prydeinig yn fyd-eang.⁴

Mae diffyg sgiliau iaith wedi'i nodi fel y prif reswm nad yw pobl ifanc yn cymryd cyfleoedd i gael profiad rhyngwladol.⁵ Mae hyn yn effeithio ar fyfyrwyr y Deyrnas Unedig yn benodol, ac mae nifer yr is-raddedigion sy'n astudio am dymor neu flwyddyn mewn prifysgol mewn gwlad arall, er ei fod yn cynyddu, yn parhau i fod yn llawer is na ffigurau cyfatebol Ffrainc, yr Almaen a Sbaen. Gwelir hyn drwy ffigurau diweddar rhaglen ariannu Erasmus:

Y DIFFYG IEITHYDDOL CYNYDDOL

Mae'r Deyrnas Unedig yn gyfoethog yn ieithyddol, nid yn unig o ran ei hieithoedd brodorol, y Gymraeg, Gaeleg, Gwyddeleg, Sgoteg, Sgoteg Wlster, Manaweg a Chernyweg, ond o ran y 200–300 o ieithoedd o amgylch y byd a siaredir ymhlith ei phoblogaeth amrywiol. Mae nifer o siaradwyr yr ieithoedd a nodir fel rhai pwysig at anghenion y Deyrnas Unedig yn y dyfodol ymhlith yr ieithoedd hyn – adnoddau hynod o werthfawr. Mae pedair gwlad y Deyrnas Unedig wedi defnyddio dulliau gwahanol mewn perthynas ag addysg ieithoedd, a hynny'n briodol i'w gwahanol amgylchiadau ieithyddol, a byddant yn parhau i wneud hynny. Ond ledled y Deyrnas Unedig, mae'r diffyg gwerthfawrogiad o werth ieithoedd heblaw am Saesneg yn eang. Mae hyn yn cyd-fynd â hanes gwael cyffredinol pobl y Deyrnas Unedig o ran dysgu ieithoedd newydd.

Siart 1: Myfyrwyr Erasmus sy'n mynd dramor 2012–13



Ffynhonnell: Go International⁶

4. Yr Academi Brydeinig (2016) *Born Global*. Ar gael drwy: <https://www.britac.ac.uk/born-global>

5. Manuel Souto-Otero et al. (2013) Barriers to international student mobility: evidence from the Erasmus programme. *Educational Researcher* 42/2: 70–77. Ar gael drwy: <http://orca.cf.ac.uk/78118/>

6. Go International (2014) *How the UK compares in Erasmus*. Ar gael drwy: <http://go.international.ac.uk/content/erasmus-figures>

Dangosodd yr unig gymhariaeth ryngwladol fawr o allu ieithyddol, Arolwg Ewrop ar Allu Ieithyddol, yn 2013 fod cyflawniad disgyblion yn Lloegr yn is na chyflawniad disgyblion pob gwlad arall a oedd yn cymryd rhan. Roedd oddeutu 30% o ddisgyblion 15 mlwydd oed oedd ar fin sefyll eu arholiadau TGAU heb gyflawni unrhyw lefel fesuradwy o gwbl yn yr iaith roeddent yn ei astudio.⁷ Fodd bynnag, ers hynny, mae cyrsiau TGAU a Safon Uwch newydd wedi'u cyflwyno, ac mae polisi i gynyddu cyfran y myfyrwyr sy'n ennill Bagloriaeth Lloegr, sy'n cynnwys TGAU mewn iaith fodern neu hynafol. Nododd adolygiad o addysg ieithoedd mewn ysgolion uwchradd yn 2016 mai dim ond 34% o ddisgyblion sy'n ennill gradd TGAU dda mewn iaith, ac roedd llai na 5% yn gwneud hynny mewn mwy nag un iaith. Daeth yr adolygiad i'r casgliad fod hyn yn 'niweidio ein buddiannau cenedlaethol, ac yn wael i ddisgyblion'.⁸ Yn 2015, canfu Ofsted nad oedd cyflawniad digon da mewn ychydig dan hanner y gwersi ieithoedd a arolygwyd.⁹ Ers 2014, mae dysgu iaith fodern neu hynafol wedi bod yn rhan o gwricwlwm cenedlaethol Lloegr ar gyfer disgyblion sydd rhwng saith ac 14 mlwydd oed, ond dangosodd adroddiad diweddar fod gwahaniaethau mawr rhwng ysgolion cynradd mewn perthynas â darpariaeth a chanlyniadau.¹⁰

Mae'r Alban wedi bod yn gweithredu polisi dysgu ieithoedd uchelgeisiol, sef '1+2', gyda'r nod o gyflwyno dwy iaith newydd i bob plentyn yn ogystal â Saesneg erbyn diwedd yr ysgol gynradd.¹¹ Mae'r polisi'n rhan o weledigaeth ehangach yr Alban y dylai pobl ifanc ddod yn ddysgwyr llwyddiannus, yn unigolion hyderus, yn gyfranogwyr effeithiol ac yn ddinasyddion cyfrifol, a bernir bod dysgu ieithoedd yn rhan hanfodol o hyn. Mae llywodraeth yr Alban wedi buddsoddi lefel sylweddol o adnoddau mewn hyfforddi a datblygu, gan gydnabod graddfa'r newid y mae'n dymuno ei weld.

Yng Nghymru, dim ond oddeutu un ym mhob pum disgybl sy'n dewis astudio iaith dramor fodern ar gyfer TGAU, ac mae llai na 10% o'r garfan yn dewis astudio iaith dramor fodern mewn mwy na thraean o ysgolion uwchradd.¹² Fodd bynnag, yn 2016 cyflwynodd Llywodraeth Cymru strategaeth Dyfodol Byd-eang, gyda'r nod uchelgeisiol o wneud Cymru'n 'ddwyieithog a mwy' a chyflwyno dysgu ieithoedd tramor mewn ysgolion cynradd, fel rhan o faes cwricwlwm eang newydd sy'n cwmpasu Cymraeg a Saesneg.¹³

Ar hyn o bryd yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, dim ond rhwng 11 ac 14 mlwydd oed y mae'n ofynnol i ddisgyblion ddysgu iaith dramor.

Arweiniodd Fframwaith Hawl 2015, a oedd yn rhoi'r hawl i ddisgyblion gael mynediad at 24 o bynciau TGAU, at leihad yn y niferoedd oedd yn dewis astudio iaith (gweler Siart 2). Fodd bynnag, mae ymdrechion i ddysgu ieithoedd mewn ysgolion cynradd wedi sicrhau rhai canlyniadau da, ac mae'n dod yn fwyfwy amlwg y gallai dechrau dysgu iaith yn gynt, gyda chlystyrau o ysgolion lleol yn gweithio ar y cyd, arwain at fanteision cymdeithasol, economaidd ac addysgol pellgyrhaeddol.¹⁴

Er y datblygiadau polisi cadarnhaol hyn, mae niferoedd y ceisiadau ar gyfer arholiadau ieithoedd yn parhau i ostwng yn y pedair gwlad. Mae Ffrangeg ac Almaeneg wedi gweld cwmp sylweddol ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig, gyda Sbaeneg ac ieithoedd eraill yn fwy sefydlog, er bod niferoedd Sbaeneg wedi gostwng yng Nghymru, ac wedi gostwng ychydig llai yn Lloegr. Mae niferoedd Cymraeg fel iaith gyntaf, Gaeleg yn yr Alban a Gwyddeleg yng Ngogledd Iwerddon oll wedi gostwng hefyd, er bod cynnydd mawr wedi bod mewn perthynas â Chymraeg fel ail iaith, sydd wedi dod yn orfodol.

Mae niferoedd is ar gyfer yr arholiadau hyn yn golygu bod cronfa lai o fyfyrwyr i astudio cymwysterau lefel uwch, sy'n broblem gynyddol ar hyd y Deyrnas Unedig, er gwaethaf rhai arwyddion cadarnhaol yn yr Alban yn y gorffennol.

7. Y Comisiwn Ewropeaidd (2012) *First European Survey on Language Competences. Adroddiad terfynol*. Ar gael drwy: http://ec.europa.eu/dgs/education_culture/repository/languages/policy/strategic-framework/documents/language-survey-final-report_en.pdf

8. Teaching Schools Council (2016) *Modern Foreign Languages Pedagogy Review*, t.16. Ar gael drwy: <https://www.tsccouncil.org.uk/modern-foreign-languages-report/>

9. Ofsted (2015) *Key Stage 3: the wasted years*. Ar gael drwy: <https://www.gov.uk/government/publications/key-stage-3-the-wasted-years>

10. Teresa Tinsley a Kathryn Board (2017) *Tueddiadau Ieithoedd*, British Council. Ar gael drwy: <https://www.britishcouncil.org/education/schools/support-for-languages/thought-leadership/research-report/language-trends-2016-17>

11. Gwefan SCILT A 1+2 *Approach to Language Learning*. Ar gael drwy: www.scilt.org.uk/A12ApproachtoLanguageLearning/tabid/1715/Default.aspx

12. Teresa Tinsley a Kathryn Board (2017) *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2016/17*, British Council Cymru. Ar gael drwy: <https://wales.britishcouncil.org/rhaglenni/addysg/tueddiadau-iaith-cymru>

13. Llywodraeth Cymru (2016) *Dyfodol Byd-eang*. Ar gael drwy: <http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/global-futures-a-plan-to-improve-and-promote-modern-foreign-languages-in-wales/?skip=1&lang=cy>


14. Sharon Jones et al. (2017) Review of current primary languages in Northern Ireland. Coleg Prifysgol Stranmillis; Ian Collen et al. (2016) The transition from primary languages programmes to post-primary language provision, NICILT/Prifysgol Queens, Belfast. Ar gael drwy: [http://pure.qub.ac.uk/portal/en/publications/the-transition-from-primary-languages-programmes-to-postprimary-languages-provision\(e437f5d8-2784-40a2-a8d1-442e167affa5\).html](http://pure.qub.ac.uk/portal/en/publications/the-transition-from-primary-languages-programmes-to-postprimary-languages-provision(e437f5d8-2784-40a2-a8d1-442e167affa5).html)

Mae pryder parhaus am y lefel isel o bobl sy'n dewis iaith fel cwrs gradd (gweler Siart 7 ar dudalen 13) ynghyd â thoriadau a bygythiadau ynghylch cau adrannau ieithoedd prifysgolion, y diweddaraf o'r rheiny ym Manceinion a Brighton. Mae'r niferoedd is o raddedigion â sgiliau iaith sy'n ymuno â'r gweithlu nid yn unig yn golygu bod rhaid i gyflogwyr edrych dramor am y sgiliau sydd eu hangen arnynt neu dderbyn bod 'Saesneg yn gwneud y tro', ond hefyd bod prinder athrawon i addysgu'r genhedlaeth nesaf o ieithyddion.


Mae boddhad cyflogwyr gyda sgiliau iaith y rheiny sy'n gadael ysgol a choleg bellach ar lefel isel o 34%. Fodd bynnag, nid oes llawer o fusnesau'n dweud eu bod yn meddwl bod ieithoedd tramor yn flaenoriaeth ar gyfer gweithredu mewn addysg ysgolion cynradd nac uwchradd.¹⁵ Er hynny, mae Siambrau Masnach Prydain wedi galw am wneud dysgu ieithoedd yn orfodol i blant rhwng saith ac 16 i 'helpu entrepreneuriaid i feddlwl yn fwy byd-eang' a chael gwared â rhwystrau i allforio.¹⁶

Yn gyffredinol, ymddengys fod diffyg ieithyddol y Deyrnas Unedig yn cynyddu. Yn ogystal, mae diwydiant ieithoedd y Deyrnas Unedig – cyfieithu rhyngwladol, lleoleiddio gwe a gwasanaethau ieithyddol eraill sy'n werth dros £1 biliwn – yn ddibynol iawn ar ieithyddion brodorol o wledydd eraill yn yr UE, a bydd yn anoddach cael mynediad at eu harbenigedd ar ôl Brexsit.¹⁷

Siart 2: Newidiadau yng ngheisiadau TGAU ieithoedd, 2013–17



Siart 3: Newidiadau yng ngheisiadau ieithoedd ar lefel Scottish National 5, 2014–17*



- Ffrangeg
- Sbaeneg
- Ieithoedd modern eraill
- Cymraeg L2
- Almaeneg
- Gwyddeleg
- Cymraeg L1

15. CBI/Pearson (2017) *Helping the UK to thrive op.cit.*
 16. Siambrau Masnach Prydain (2014) One in five service firms on the verge of exporting (datganiad i'r wasg). Ar gael drwy: <http://exportbritain.org.uk/latest-news/bcc-one-in-five-service-firms-on-the-verge-of-exporting.html>
 17. Sefydliad Siartredig yr Ieithyddion (2017) UK language industry. CIOL concerned for the future of EU nationals in Britain following Brexit (datganiad i'r wasg). Ar gael drwy: www.ciol.org.uk/uk-language-industry-%E2%80%93-93-ciol-concerned-future-eu-nationals-uk-following-brex-it
 18. www.jcq.org.uk
 19. www.sqa.org.uk

GWNEUD SYNNEWYR O ANGHENION IEITHYDDOL Y DEYRNAS UNEDIG AR ÔL BRECSIT

Gallu ieithyddol ym mhoblogaeth y Deyrnas Unedig

Mae arolygon o boblogaeth Prydain yn dangos yn gyson bod ychydig dros draean o oedolion Prydain yn gallu cynnal sgwrs sylfaenol mewn o leiaf un iaith heblaw am eu mamiaith.²⁰

Mae'r ffigur hwn yn cynnwys y rheiny nad ydynt yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf. Yn 2006, nododd Eurobarometer fod y ffigur yn 38%, ac wedi cynyddu i 39% yn 2012.²¹ Fodd bynnag, canfu arolwg diweddaraf y British Council fod 37% o oedolion Prydain yn dweud eu bod yn gallu cynnal sgwrs sylfaenol pan fônt dramor. Nid yw'r gyfran hon yn amrywio llawer rhwng pedair gwlad y Deyrnas Unedig.

Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg yw'r ieithoedd y mae pobl Prydain yn fwyaf

tebygol o'u siarad, sy'n adlewyrchu'r ieithoedd a ddysgir amlaf yn ysgolion y Deyrnas Unedig. Caiff ystod eang o ieithoedd eraill eu siarad gan niferoedd llai, sy'n adlewyrchu cefndir tramor pobl y Deyrnas Unedig, ac ymdrechion oedolion ac ysgolion atodol i ddatblygu cymhwysedd a llythrennedd mewn ieithoedd na chânt eu dysgu fel arfer mewn ysgolion.

Dysgu ieithoedd mewn ysgolion


Yn annhebyg i'w cyfoedion mewn gwledydd eraill, nid oes gan bobl sy'n siarad Saesneg fel iaith gyntaf un iaith newydd amlwg i'w dysgu. Yn draddodiadol, mae ein hysgolion a'n prifysgolion wedi dysgu Ffrangeg ac Almaeneg, a dyma'r ieithoedd sydd wedi dioddef fwyaf o ran y cwmp diweddar mewn niferoedd. Yn yr 20 mlynedd diwethaf, mae Sbaeneg wedi dod yn bwysicach; yn 2004, pasiwyd Almaeneg gan Sbaeneg o ran nifer y ceisiadau Safon Uwch yn Nghymru,

Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac erbyn hyn mae mwy na dwywaith cymaint o geisiadau ar gyfer Sbaeneg. Mae'r patrwm hwn yr un fath yn yr Alban. Ni chaiff ieithoedd eraill eu dysgu'n eang mewn ysgolion prif ffrwd, er bod eu niferoedd yn cynyddu o ganlyniad i ymgeiswyr tramor sy'n astudio mewn ysgolion preifat, a phlant sy'n ennill cymhwyseddau ieithyddol yn y cartref a/neu drwy fynychu ysgolion atodol ar ddydd Sadwrn neu ar ôl ysgol.

Mae siartiau 5 a 6 yn cyfeirio at geisiadau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac maent yn dangos bod y gwahaniaeth rhwng ieithoedd sy'n cael eu dysgu'n aml ac yn llai aml yn llawer uwch ar lefel TGAU na Safon Uwch. Mae'r tair prif iaith ar gyfer TGAU yn yr un safle ag yr oeddent yn ymchwil 2013. Fodd bynnag, mae rhywfaint o newid o ran trefn pwysigrwydd yn is yn y tabl, ac mae Wrddw wedi disodli Twrceg.

Siart 4: Sgiliau iaith ymhlith pobl 18–34 mlwydd oed yn y Deyrnas Unedig

'Ydych chi'n siarad unrhyw rai o'r ieithoedd hyn yn ddigon da i gynnal sgwrs?'




Ffynhonnell: Arolwg Ipsos MORI i'r British Council²²

20. Arolwg Populus i'r British Council, Gorffennaf/Awst 2017, British Council (2017) Parlez-vous English? British holidaymakers embarrassed by poor language skills (datganiad i'r wasg). Ar gael drwy: <https://www.britishcouncil.org/organisation/press/british-holidaymakers-embarrassed-poor-language-skills>

21. Y Comisiwn Ewropeaidd (2006) Europeans and their languages, Special Eurobarometer 243. Ar gael drwy: https://ec.europa.eu/commfrontoffice/publicopinion/archives/ebs/ebs_243_en.pdf; lbid, 2012, Europeans and their languages, Special Eurobarometer 386. Ar gael drwy: https://ec.europa.eu/commfrontoffice/publicopinion/archives/ebs/ebs_386_en.pdf


22. Sampl o 1,000 o drigolion y Deyrnas Unedig rhwng 18–34 oed a gynhaliwyd rhwng 8 Medi – 16 Hydref 2016.

Siart 5: Deg prif iaith Safon Uwch 2016



Ffynhonnell: Cyd-Gyngor Cymwysterau²³

Siart 6: Deg prif iaith TGAU 2016



Ffynhonnell: Cyd-Gyngor Cymwysterau²⁴

Caniateir i ysgolion y Deyrnas Unedig i addysgu unrhyw iaith, ond cânt eu cyfyngu gan argaeledd cymwysterau ac athrawon, ymhlith ffactorau eraill. Er bod cymwysterau TGAU a Safon Uwch ar gael mewn 19 o ieithoedd tramor, mae'r holl gyrsiau hyfforddi athrawon yn canolbwyntio bron yn llwyr ar Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg. Yn yr Alban, mae cymwysterau ar gael mewn Eidaleg, Mandarin, Cantoneg ac Wrddw, ynghyd â Ffrangeg, Sbaeneg, Almaeneg a Gaeleg. Mae goblygiadau staffio pwysig i ysgolion sy'n dymuno cyflwyno iaith newydd: yn y flwyddyn gyntaf, maen nhw'n annhebygol o fod â digon o ddosbarthiadau i gael athro llawn amser, ond wrth i niferoedd gynyddu bob blwyddyn, byddai angen cynllunio i allu staffio rhagor, ynghyd ag ystyried y sgil-ffeithiau ar staff ieithoedd sydd yno eisoes. Mae penaethiaid yn dweud mai eu prif bryder yw cyflenwad digonol o athrawon o ansawdd uchel, a chyda nifer fach iawn o lwybrau hyfforddi ar gael ar gyfer ieithoedd llai cyffredin, mae cyflwyno iaith newydd yn risg sylweddol.²⁵ Mae'r ffactorau hyn yn egluro pam ei bod wedi bod yn anodd i ieithoedd megis Mandarin a Tsieinëeg,²⁶ Japaneg neu Arabeg ennill eu plwyf yn y system neu ennill màs critigol, er gwaetha'r pocedi o frwdfrydedd angerddol ac arfer da.

'Mae'n rhaid i'r llywodraeth gydnabod bod ieithyddion proffesiynol yn y Deyrnas Unedig, waeth beth yw eu cenedligrwydd, yn mynd i fod yn weithwyr proffesiynol hanfodol ochr yn ochr â chyfreithwyr a negodwyr masnach gyda'r UE yn amcanion y llywodraeth o sicrhau economi fyd-eang lwyddiannus ar ôl Brexist.'

Ann Carlisle, Prif Weithredwr, Sefydliad Siartredig yr Ieithyddion²⁷

23. www.jcq.org.uk

24. *Ibid.*

25. Alcantara Communications (2016) The Teaching of Arabic Languages and Cultures in UK schools, British Council. Ar gael drwy: https://www.britishcouncil.org/sites/default/files/arabic_report_2015.pdf; Alcantara Communications (2015) The Teaching of Chinese in UK Schools. Ar gael drwy: www.britishcouncil.org/sites/britishcouncil.uk2/files/alcantara_full_report_jun15.pdf

26. Rydym yn gwahaniaethu rhwng Mandarin a ieithoedd Tsieinëeg eraill lle bynnag y bo ffynonellau'n caniatáu.

27. Ann Carlisle (2017) 'UK language industry – CIOL concerned for the future of EU nationals in the UK following Brexit' (datganiad i'r wasg). Ar gael drwy: www.ciol.org.uk/uk-language-industry-%E2%80%93-ciol-concerned-future-eu-nationals-uk-following-brexit

'Yn gyffredinol, bydd gallu siarad Almaeneg nid yn unig yn sicrhau'r swydd sy'n talu orau i chi, ond dyma hefyd yw'r iaith sydd â'r galw mwyaf amdani ar draws hysbysebion swyddi.'

Lianna Brinded, Golygydd Cyllid, Business Insider ²⁸

Pan fo ysgolion yn dysgu mwy nag un iaith, mae'n bosibl bod gan y disgyblion neu eu rhieni ddewis, ac mae'n debygol bod twf Sbaeneg wedi'i lywio gan ddewis poblogaidd gymaint ag y mae gan ffactorau systematig. Mae nifer yr ysgolion gwladol sy'n dysgu Almaeneg wedi gostwng o oddeutu tri chwarter i oddeutu hanner ar hyn o bryd, er mai dyma'r iaith sydd â'r mwyaf o alw amdani yn y farchnad swyddi a'r un sy'n arwain at y cyflogau uchaf.²⁹

leithoedd mewn addysg uwch


Mae cyrsiau gradd Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg ar gael mewn prifysgolion ar draws y Deyrnas Unedig, er bod

rhywfaint o ostyngiad wedi bod yn ddiweddar. I'r gwrthwyneb, mae argaeledd astudiaethau Tsieinëeg wedi cynyddu, er ei bod yn anodd canfod data dibynadwy ar faint o fyfyrwyr sy'n ei hastudio, na'r lefel o gymhwysedd ieithyddol a gyflawnir erbyn diwedd y cwrs.

Canfu adolygiad manwl o ddarpariaeth ieithyddol mewn addysg uwch mai ychydig iawn o ddysgu iaith oedd yn digwydd ar y cyd â chysiau sy'n datblygu sgiliau'r gweithle yn benodol.³⁰ Mae ieithoedd fwy neu lai yn absennol o gyrsiau galwedigaethol, ac mae'r cyfleoedd i'w hastudio ar ôl TGAU yn

gostwng wrth i golegau gael gwared â chysiau.³¹ Mae Coleg Prifysgol Llundain yn eithriad wrth ei gwneud yn ofynnol bod gan bob myfyriwr gradd anrhydedd y Deyrnas Unedig gymhwysedd sylfaenol mewn iaith dramor fodern.³² Gyda'r Deyrnas Unedig nawr ar fin gadael yr UE, mae ysgolion yn adrodd bod rhai myfyrwyr ac athrawon yn cwestiynau p'un a fydd yr angen i ddysgu ieithoedd Ewropeaidd yn parhau, ac mae disgyblion yn ansicr ynghylch pa opsiynau fydd ar gael iddynt yn y dyfodol os ydynt yn eu hastudio.³³ Felly, dyma'r amser i ail-archwilio pa ieithoedd y mae ar y Deyrnas Unedig eu hangen fwyaf.

Siart 7: Cyrsiau gradd mewn ieithoedd penodol sydd ar gael yn y Deyrnas Unedig



Ffynhonnell: UCAS³⁴

28. Lianna Brinded (2016) 'The top 9 languages for the highest paid jobs in Britain', *The Independent*. Ar gael drwy: www.independent.co.uk/news/business/analysis-and-features/the-top-9-languages-for-the-highest-paid-jobs-in-britain-a7329201.html

29. *Ibid.*

30. *Ibid.* tudalen 116.

31. Rosemary Bennett (2017) 'Struggling Sixth Form Colleges drop languages, ICT and drama', *The Times*. Ar gael drwy: <https://www.thetimes.co.uk/article/struggling-sixth-form-colleges-drop-languages-ict-and-drama-6kszvrxn>

32. Coleg Prifysgol Llundain, gofyniad am iaith dramor fodern. Ar gael drwy: www.ucl.ac.uk/clie/CourseUnits/Pre-course/MFLrequirement

33. Teresa Tinsley a Kathryn Board (2017) *Tueddiadau Ieithoedd 2016–17*, British Council, op. cit. tudalen 96.

34. UCAS (2017) www.ucas.ac.uk. data 2012 gan Teresa Tinsley (2013) *Languages, The State of the Nation*, yr Academi Brydeinig. Ar gael drwy: <https://www.britac.ac.uk/publications/languages-state-nation>

NODI'R IEITHOEDD Y MAE AR Y DEYRNAS UNEDIG EU HANGEN

METHODOLEG

Mae nifer o ffactorau gwahanol y mae angen rhoi sylw iddynt wrth ystyried pa ieithoedd a fydd fwyaf defnyddiol i'r Deyrnas Unedig yn y dyfodol. Mae angen asesu deinameg fasnachol a deinameg nad yw'n fasnachol er mwyn cydbwysu gofynion economaidd a diwylliannol. Mae diddordeb y cyhoedd mewn dysgu gwahanol ieithoedd yn ffactor, ynghyd â'r angen i ddatblygu perthnasau rhyngwladol at ddibenion diplomyddol, masnachol, addysgol neu ddiwylliannol. Mae'r dadansoddiad hwn, fel yn 2013, yn defnyddio set o ddeg maen prawf i nodi'r ieithoedd sy'n debygol o ddod â'r mwyaf o fuddion i'r Deyrnas Unedig.


Pwysolwyd pedwar ffactor economaidd yn erbyn pedwar ffactor nad yw'n fasnachol, ac yna eu cymhwyso â dau ffactor ychwanegol cyd-destunol: i ba raddau y mae pobl yn y wlad berthnasol yn gallu'r Saesneg, a chynrychiolaeth gwahanol ieithoedd ar y we. Dyluniwyd y meini prawf i ystyried y sefyllfa gyfredol a gofynion strategol y Deyrnas Unedig yn y dyfodol.

Mae data ffres wedi'i gasglu gan sefydliadau rhyngwladol, ffynonellau llywodraeth y Deyrnas Unedig, busnesau ac ymchwil annibynnol. Mae'r meini prawf yn cynnwys dangosyddion 'o'r gwaelod i fyny' gan fusnesau a'r cyhoedd, a'r gofynion y dylai ieithoedd gefnogi polisi llywodraethol o'r 'top i lawr'. Dylid darllen yr ymchwil gyda'r

ddealltwriaeth fod gan gymhellion a dewisiadau personol, ynghyd ag anghenion sefydliadol, rôl bwysig i'w chwarae ar lefel dewis unigolyn.

Yn gyson â ffocws manwl yr ymchwil, mae'r data a ddefnyddiwyd yn gyffredinol berthnasol i'r Deyrnas Unedig gyfan; mae'n bosibl bod data sy'n dod o ffynonellau tystiolaeth sy'n berthnasol i wledydd unigol y Deyrnas Unedig yn darparu canlyniadau gwahanol ar gyfer Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon neu Loegr. Fel y nodwyd uchod, nid y nod yw darparu atebion manwl neu gynhwysfawr, ond yn hytrach sbarduno trafodaeth strategol am ba ieithoedd sydd, ac a fydd, bwysicaf i bobl y Deyrnas Unedig eu siarad.

Tabl 1: Y ffactorau a ystyriwyd wrth bennu'r ieithoedd pwysicaf



FFACTORAU ECONOMAIDD

Mae llawer o bethau nad ydym yn eu gwybod eto. Prin y mae rhagfynegiadau o effaith economaidd lawn Brexit wedi dechrau dod i'r amlwg, ac mae'r negodi ar y telerau ymadael â'r UE yn parhau adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Ar ôl cytuno arnynt, nid oes amheuaeth y bydd y Deyrnas Unedig yn dechrau ar gyfnod o ailaddasu sylweddol i'w statws newydd. I ba raddau y bydd ymadael â'r UE yn cael effaith ar y lefel o fasnachu mae'n ei wneud â gwledydd yr UE, sydd ar hyn o bryd yn gyfwerth â 44% o allforion y Deyrnas Unedig mewn nwyddau a gwasanaethau? Os bydd effaith, i ba raddau y bydd hyn yn cael ei wrthbwysu gan gynnydd mewn masnachu â marchnadoedd eraill, a pha mor gyflym?

A pha rôl y bydd ieithoedd yn ei chwarae wrth gyflawni hyn? Mae'n nodedig bod nifer o'r gwledydd y mae llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi'u nodi ar gyfer cytundebau masnach rydd yn wledydd sy'n siarad Saesneg (yr Unol Daleithiau, India, Tsieina, Awstralia, Seland Newydd, De Corea a thaleithiau'r Gwlff).³⁵ Fodd bynnag, nid ydym yn gwybod eto pa rai o'r cytundebau posibl hyn, neu rai eraill, fydd yn cael eu gwireddu na pha mor gyflym. Ers rhai blynyddoedd erbyn hyn, mae'r Deyrnas Unedig wedi bod yn masnachu fwyfwy gydag economïau datblygedig sy'n dod i'r amlwg o'r tu allan i'r UE, gyda chyfran y masnachu â gwledydd yr UE yn cwmpo ers 1999. Fodd bynnag, mae'r CBI yn nodi mai 'economïau mawr Ewrop yw'r marchnadoedd allforio fwyaf ar gyfer nwyddau Prydain yn dal i fod, ac mae'n debygol y bydd hi'n parhau felly ar ôl Brexit'.³⁶

'Wrth i gwmnïau edrych tuag at farchnadoedd ar draws y byd, mae ieithoedd yn dod yn gynyddol werthfawr. Mae cyflogwyr yn dangos diddordeb cynyddol yn y sgiliau hynny.'

Dr Adam Marshall, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Siambrau Masnach Prydain³⁷

35. Pwyllgor Masnach Ryngwladol Tŷ'r Cyffredin (2017) Tystiolaeth ar lafar, Dewisiadau masnachu'r Deyrnas Unedig ar ôl 2019, Senedd y Deyrnas Unedig. Ar gael drwy: <https://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/commons-select/international-trade-committee/inquiries/parliament-2015/uk-trade-options-beyond-2019-16-17/>

36. CBI/Pearson (2017) *Helping the UK to thrive*. *Op.cit.* tudalen 35.

37. City AM (2014) 'Is a foreign language worth the investment?'. Ar gael drwy: www.cityam.com/article/1398899641/foreign-language-worth-investment


Dangosydd 1 – Allforion y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd

Ar gyfer y dangosydd hwn, rydym wedi defnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael o un ffynhonnell, sy'n ein caniatáu ni i dracio datblygiadau ers 2012 ym mhrif farchnadoedd allforion nwyddau a gwasanaethau'r Deyrnas Unedig. Marchnadoedd allforio mwyaf y Deyrnas Unedig nad ydynt yn wledydd

sy'n siarad Saesneg yw'r Almaen, Ffrainc a'r Iseldiroedd. Y newid mwyaf nodedig ers 2012 yw gostyngiad o 25% yn y fasnach allforio i Rwsia, sydd o ganlyniad i sancsiynau rhyngwladol yn bennaf. Y rheswm dros nifer uchel yr allforion i'r Iseldiroedd yw 'effaith Rotterdam', lle caiff nwyddau sydd ar eu ffordd i drydydd gwledydd eu hallforio'n gyntaf i borthladdoedd rhyngwladol mawr megis Rotterdam. Dangosodd

allforion nwyddau i'r Swistir, yr Eidal a Tsieina dwf sylweddol dros y cyfnod dan sylw. Mae allforion gwasanaethau, lle mae'n debygol fod gan sgiliau iaith rôl arbennig o sylweddol i'w chwarae, wedi tyfu'n fawr yn yr Eidal, Japan, yr Almaen a'r Swistir. Fodd bynnag, cwmpodd gwerth allforion i India, De Affrica a Brasil – gwledydd a nodwyd yn ein hadroddiad diwethaf fel marchnadoedd targed pwysig.³⁸

Siart 8: Allforion nwyddau a gwasanaethau'r Deyrnas Unedig, prif farchnadoedd



Ffynhonnell: Tablau cydbwysedd taliadau a daearyddol blynyddol Swyddfa'r Ystadegau Gwladol. Dylid nodi bod Gweddill Gwledydd Arabaidd y Gwlff yn golygu Bahrain, Irac, Kuwait, Oman, Qatar, yr Emiraethau Arabaidd Unedig a'r Yemen.³⁹

38. Data o CBI/Ernst a Young (2011) Winning overseas, a ddyfynnwyd yn Teresa Tinsley a Kathryn Board (2013) *Languages for the future, which languages the UK needs most and why*, British Council, tudalen 13. Ar gael drwy: <https://www.britishcouncil.org/organisation/policy-insight-research/research/languages-future>

39. Swyddfa'r Ystadegau Gwladol (2017) Tablau cydbwysedd taliadau a daearyddol blynyddol. Ar gael drwy: <https://www.ons.gov.uk/economy/nationalaccounts/balanceofpayments/adhocs/006656balanceofpaymentsannualgeographicaldatatables>

O gymharu â'n dadansoddiad yn 2013, mae'r Eidaleg wedi cynyddu ar draul Sbaeneg, ac mae Rwsieg wedi'i disodli gan Gantoneg. Fodd bynnag, fel mae adolygiad o hysbysebion swyddi â ieithoedd yn dangos (gweler Dangosydd 2), nid yw lefel y masnachu cyfredol â gwlad yn trosi'n uniongyrchol i alw am iaith y wlad honno. Nid ydym yn gwybod i ba raddau y mae sgiliau iaith yn rhan o hyn, a bydd hyn hefyd yn amrywio o wlad i wlad, yn dibynnu nid yn unig ar faint mae eraill yn gallu neu'n barod i weithredu drwy'r Saesneg, ond hefyd ar y math o nwydd neu wasanaeth a fasnechir. Er bod Iseldireg yn ymddangos yn is ar y rhestr pan ddaw at swyddi, mae nifer sylweddol o swyddi a hysbysebir sy'n gofyn am yr iaith, er enghraifft gwasanaethau cwsmeriaid, gwerthu, technoleg gwybodaeth, cyllid a marchnata.

Mae gwahaniaethau bychain o ran pa farchnadoedd allforio sydd bwysicaf i bedair gwlad y Deyrnas Unedig. Mae'n nodedig mai'r Almaen yw marchnad allforio fwyaf Cymru, ac mai Tsieina yw un o farchnadoedd allforio pwysicaf yr Alban, gyda masnachu'n cynyddu 76% rhwng 2015 a 2016.⁴⁰ Mae Canada yn wlad bwysig i allforion o Ogledd Iwerddon, wrth i lefelau masnachu rhwng Gogledd Iwerddon a Ffrainc a Malaysia ostwng.⁴¹

O'r data uchod, gallwn ddod i'r casgliad bod y galw am yr ieithoedd canlynol ar gyfer y prif farchnadoedd allforio yn y drefn hon:

Tab 2: Galw am ieithoedd yn y prif farchnadoedd allforio 2017 a 2013

2017		2013
Almaeneg	—	Almaeneg
Ffrangeg	▲	Iseldireg
Iseldireg	▼	Ffrangeg
Eidaleg	▲	Mandarin
Mandarin	▼	Sbaeneg
Arabeg	▲	Eidaleg
Sbaeneg	▼	Swedeg
Japaneg	▲	Rwsieg
Swedeg	▼	Arabeg
Cantoneg	▲	Japaneg

Dangosydd 2 – Anghenion iaith busnesau'r Deyrnas Unedig

Canfu arolwg blynyddol diweddaraf Addysg a Sgiliau CBI/Pearson o gyflogwyr mai'r ieithoedd y mae cyflogwyr yn dweud bod arnynt fwyaf o'u hangen yw Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg (gweler Siart 9).⁴²

Ers 2013, nid oes llawer o newidiadau wedi bod, a dim newidiadau o gwbl ar frig y tabl. Mae cyfran y cwmnïau sy'n cyfeirio at Ffrangeg ac Almaeneg fel ieithoedd defnyddiol i'w busnes wedi gostwng ychydig, ac mae'r gyfran sy'n cyfeirio at Sbaeneg, Mandarin ac Arabeg wedi cynyddu. Credir bod y galw am Bwyleg yn uchel o achos yr angen i gyfathrebu â gweithwyr Pwyleg yn y Deyrnas Unedig, yn hytrach na bod yr angen yn deillio o fusnes rhyngwladol â Gwlad Pwyl. Yng ngoleuni cyfyngiadau posibl ar ryddid dinasyddion yr UE i symud i'r Deyrnas Unedig yn y dyfodol, mae'n bosibl y bydd y galw hwn yn lleihau yn y dyfodol.

Mae arolwg CBI/Pearson, sy'n ceisio llywio polisi addysg, hefyd yn dangos bod boddhad cyflogwyr â sgiliau ieithoedd tramor y rhai sy'n gadael ysgol/ coleg wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn nawr ar 34% o gymharu â 42% yn 2016, a 40% yn 2015 (36% yn 2013).⁴³ Mae'r adroddiad yn amlygu'r angen am fwy o sgiliau iaith os yw Prydain am fod yn llwyddiannus yn masnachu'n agored yn fyd-eang, gan nodi bod manteision sylweddol mewn lefel sylfaenol o allu hyd yn oed, er bod rhai rolau yn gofyn am lefel uchel o allu mewn iaith.

40. HMRC (2017) *Regional Trade Statistics*, Q4 2016 Commentary, tudalen 18. Ar gael drwy: <https://www.uktradeinfo.com/Statistics/RTS/Pages/RTSArchive.aspx>. Roedd y cynnydd hwn yn werth £532 miliwn. Nid oes awgrym o ran pa fath o nwyddau oedd yn rhan ohono.

41. *Ibid.* tudalen 22.

42. CBI/Pearson (2017) *Helping the UK to thrive. Arolwg Addysg a Sgiliau*, op. cit.


43. Anne Marie Graham (2013) 'Labour Market Intelligence for Languages. A picture of the jobs market, summer 2012' yn Teresa Tinsley (2013) *Languages, the State of the Nation*, Yr Academi Brydeinig, tudalen 181, op. cit.

Bum mlynedd yn ôl, dangosodd ymchwil Gwybodaeth Marchnad Lafur a oedd yn seiliedig ar hysbysebion swyddi o nifer o wefnau fod Almaeneg ar y blaen, ac yn cael ei dilyn gan Ffrangeg, Sbaeneg, Eidaleg,

Iseldireg, Rwsieg, Swedeg, Portiwgaleg, Daneg a Norwyeg, gyda ieithoedd Tsieinëeg (roedd Mandarin a Chantoneg yn cael eu trin ar y cyd) yn dilyn yn safle 11.⁴⁴ Mae cymharu'r ddwy set o ganfyddiadau yn awgrymu, yn y


cyfnod ers hynny, bod y galw am Tsieinëeg Mandarin, Arabeg a Japaneg wedi disodli'r galw am Rwsieg, Portiwgaleg a ieithoedd Scandinafidd (gweler Siart 10).

Siart 9: Canran y cwmnïau sy'n nodi bod yr iaith yn ddefnyddiol i'w cwmni



Ffynhonnell: Arolwg Addysg a Sgiliau CBI/Pearson 2017

Siart 10: Swyddi gwag sydd â gofyniad iaith



Ffynhonnell: www.adzuna.co.uk

44. *Ibid.* tudalen 24.

Dangosydd 3 – Blaenoriaethau masnachu'r dyfodol llywodraeth y Deyrnas Unedig

Yn 2017, lansiodd yr Adran Masnach Ryngwladol strategaeth a enwai 50 o farchnadoedd tramor at ddibenion datblygu busnesau'r Deyrnas Unedig ar ôl Brexit. Mae hyn yn disodli adroddiad 2011 *Trade and Investment for Growth* a gyhoeddwyd gan yr Adran Arloesi a Sgiliau a ddefnyddiwyd yn ein hadroddiad blaenorol fel ffynhonnell ddata ar gyfer y dangosydd hwn, ond mae'n parhau i amlygu ehangder ac amrywiaeth y gwledydd yn ydym yn gobeithio dyfnhau ein perthnasau masnachu â nhw, a'u cyd-destunau ieithyddol.

Mae'r 50 o farchnadoedd a nodwyd gan yr Adran Masnach Ryngwladol yn cynnwys:

Affrica; Awstralia; Azerbaijan; Gwlad Belg; Brasil; Canada; Chile; Tsieina; Denmarc; y Ffindir; Ffrainc; yr Almaen; y Gwlff; Hong Kong; India; Indonesia; Iran; Irac; yr Eidal; Japan; Kazakhstan; Kuwait; Lithwania; Malaysia; Mecsico; Mongolia; yr Iseldiroedd; Seland Newydd; Norwy; Oman; Ynysoedd Philippines; Gwlad Pwyl; Qatar; Singapore; De Affrica; De Corea; Sbaen; Sweden; y Swistir; Taiwan; Gwlad Thai; Tiwnisia; Twrci; Unol Daleithiau America; Wcraïn.⁴⁵

Drwy'r ffynhonnell hon daethom o hyd i'r ieithoedd perthnasol, ac mae llawer ohonynt, gyda rhai ieithoedd yn ymddangos fwy nag unwaith – er enghraifft mae'r Arabeg yn cael ei chrybwyll chwe gwaith, a Ffrangeg, Mandarin a Sbaeneg oll yn cael eu crybwyll dair gwaith. Er mwyn deall

pa ieithoedd a all fod yn berthnasol i 'Affrica', cyfandir sydd â thros fil o ieithoedd (hyd at 3,000 yn ôl rhai cyfrifiadau), aethom ati i adolygu pa wledydd yn Affrica oedd yn hysbysebu cyfleoedd ar wefan Exporting is Great y Llywodraeth.⁴⁶ Roedd cyfleoedd yn Affrica Is-Sahara yn dangos bod gan Kenya chwe chyfle wedi'i hysbysebu, bod gan Uganda dri, a bod gan Ethiopia, Liberia, Madagascar, Malawi, Nigeria a Mozambique/Zambia un yr un. Ymddengys mai Swahili, y lingua franca yn llawer o ddwyrain a de-ddwyrain Affrica, yw'r iaith sydd â'r mwyaf i'w gynnig yma, ac mae Ffrangeg yn iaith gyffredin yng ngogledd a chanoldir Affrica.

Nid yw Rwsia, sy'n wynebu sancsiynau rhyngwladol ar hyn o bryd, wedi'i chynnwys yn y rhestr o wledydd blaenoriaeth y llywodraeth; fodd bynnag, mae gwefan Exporting is Great yn rhestru nifer fawr o gyfleoedd yn Rwsia, ac mae amryw o erthyglau yn y wasg hefyd wedi amlygu'r cyfleoedd i'r Deyrnas Unedig ddod yn bartner â Rwsia ar ôl Brexit.⁴⁷

Dangosydd 4 – Marchnadoedd twf uchel sy'n dod i'r amlwg

Ar gyfer y dangosyddion hyn, defnyddiom adroddiad annibynnol sy'n canolbwyntio'n benodol ar gyfleoedd ar gyfer y Deyrnas Unedig. Mae *Thinking Global, the route to UK exporting success*, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2016, yn edrych ar gyfleoedd i fusnesau bach a chanolig, y mae'n eu galw'n 'tomorrow's mini-multinationals'.⁴⁸

Mae'r adroddiad hwn yn nodi mai rhwystrau ieithyddol yw'r her fwyaf i fusnesau bach a chanolig sy'n gobeithio datblygu marchnadoedd dramor – gan 15% o ymatebwyr – heblaw am her Brexit ei hun.

Tabl 3: Y tair prif farchnad sy'n dod i'r amlwg yn nhrefn eu twf disgwyliedig erbyn 2020, ynghyd â'u hieithoedd swyddogol

Gwlad	Iaith swyddogol
India	Hindi, Saesneg
Fietnam	Fietnameg
Ghana	Saesneg
Indonesia	Bahasa Indonesia (Maleieg)
Tsieina	Mandarin
Malaysia	Maleieg
Gwlad Thai	Thai
Yr Emiraethau Arabaidd Unedig	Arabeg
Twrci	Twrcceg
Gwlad Pwyl	Pwyleg

Ffynhonnell: Canolfan Ymchwil Economeg a Busnes, 2016⁴⁹

45. Yr Adran Masnach Ryngwladol (2017) 'International Trade Secretary: 2017 must be "Year of Exporting"' (datganiad i'r wasg). Ar gael drwy: <https://www.gov.uk/government/news/international-trade-secretary-2017-must-be-year-of-exporting>

46. Llywodraeth EM, gwefan Exporting is Great. Ar gael drwy: www.export.great.gov.uk

47. Gwefan Russia Direct. Ar gael drwy: www.russia-direct.org/opinion/post-brexit-russia-would-make-interesting-trade-partner-britain Nid yw'r wefan hon wedi'i diweddarau ers mis Mawrth 2017 am resymau cyllido; Vicki Oliphant (2016) 'New Britain-Russia trade deal?', Express Online. Ar gael drwy: www.express.co.uk/news/uk/728420/Britain-Russia-trade-deal-European-Union-Brexit-punishment

48. Canolfan Ymchwil Economeg a Busnes (2016) *Thinking Global. The route to UK exporting success*, World First. Ar gael drwy: https://www.worldfirst.com/downloads/Think_Global_WorldFirst.pdf

49. *Ibid.* tudalen 30. Mae'r canfyddiadau'n unol â chanfyddiadau Band y Byd a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017: Grŵp Banc y Byd (2017) *Global Economic Prospects*. Ar gael drwy: www.worldbank.org/en/news/press-release/2017/06/06/global-growth-set-to-strengthen-to-2-7-percent-as-outlook-brightens

Yn ogystal â iaith neu ieithoedd swyddogol pob gwlad, mae nifer o ieithoedd eraill hefyd yn chwarae rhan. Caiff Saesneg ei defnyddio'n eang yn yr Emiraethau Arabaidd Unedig, ynghyd ag ym Malaysia (ar y cyd â Tamil). Mae gan Ghana amrywiaeth eang o ieithoedd lleol, ac yn India mae gan dros 20 o ieithoedd heblaw Hindi a Saesneg gydnabyddiaeth swyddogol. Mae'r adroddiad hefyd yn rhestru Mecsico, Nigeria a Saudi Arabia fel economïau y mae disgwyl iddynt dyfu'n fwy cyflym nag Ardal yr Ewro yn y cyfnod hyd at 2020, gan roi gwerth ychwanegol i Sbaeneg, Arabeg a ieithoedd Nigeria, a ddefnyddir ochr yn ochr â Saesneg fel iaith swyddogol.

Amlygodd y ffynonellau a ddefnyddiwyd yn 2013 y gwledydd a elwir yn wledydd BRIC(S), sef Brasil, Rwsia, India, Tsieina a De Affrica. Fodd bynnag, mae dwy o'r gwledydd hyn, Rwsia a Brasil, wedi profi cwmpïadau economaidd difrifol ers 2013: nid yw economi Rwsia wedi aros gyfuwch ag amcanestyniadau gwreiddiol Goldman

Sachs, ac mae economi Brasil yn parhau i fod yn fregus iawn.⁵⁰ Yn 2013 tynnom sylw at natur ansicr rhagfynegiadau am dwf economaidd y dyfodol, yn enwedig mewn cyd-destun o ansefydlogrwydd gwleidyddol. Er bod yr adroddiadau diweddaraf yn dangos bod economi Rwsia nawr yn ôl ar ei thraed, nid yw'r ffynhonnell rydym wedi'i defnyddio ar gyfer y dangosydd hwn yn 2017 yn disgwyl i Rwsia – na De Affrica – dyfu'n gryf yn y cyfnod hyd at 2020.

Dadansoddiad interim o ieithoedd sydd eu hangen at ddibenion economaidd

Drwy gyfuno'r dystiolaeth o'r pedwar dangosydd economaidd a ddefnyddiwyd, y pum prif iaith yw Ffrangeg, Almaeneg, Mandarin, Arabeg a Sbaeneg. Yr un pum iaith ddaeth i frig y tabl yn 2013, er bod y drefn wedi newid ychydig. Yn ôl data 2017, mae Ffrangeg wedi disodli Almaeneg ar y brig, ac mae Mandarin wedi mynd heibio i Sbaeneg ac Arabeg a chyrraedd y trydydd safle. Mae Portiwgaleg, Rwsieg a Swedeg wedi gadael y tabl,

ac wedi'u disodli gan Japaneg, Eidaleg a ieithoedd India, ac mae Pwyleg wedi codi i'r chweched safle.

O ystyried bod yr un pum iaith yn ymddangos yn gyson ar frig y tabl, gallwn fod yn weddol hyderus wrth ddod i'r casgliad mai dyma'r pum iaith y bydd ar y Deyrnas Unedig eu hangen fwyaf ar gyfer busnes a masnachu yn y dyfodol, ac na fydd Brexit yn newid hynny yn y dyfodol agos. Yn is yn y tabl, mae'r sefyllfa'n fwy cymhleth. Mae nifer o ieithoedd sy'n agos at gael lle yn y deg uchaf. Er bod Portiwgaleg a Rwsieg wedi gadael y deg uchaf yn nadansoddiad 2017, byddai'n annoeth dod i'r casgliad na fyddant o werth i'r Deyrnas Unedig yn y dyfodol, o ystyried potensial economaidd, a maint, Brasil a Rwsia.

Ymhlith yr ieithoedd eraill mae Fietnameg, Thai, Indoneseg a Maleieg – gweler yr Atodiad ar gyfer y grid sgorio. Gall y rhain a ieithoedd eraill y byd ddod i'r amlwg yn y dyfodol, ochr yn ochr neu hyd yn oed o flaen rhai o ieithoedd Ewrop na chânt eu siarad mor eang.

Tabl 4: Yr ieithoedd sydd eu hangen at ddibenion economaidd

Ieithoedd	Sgoriau 2017 o ddangosyddion 1–4	Safleoedd 2013
Ffrangeg	22	Almaeneg
Almaeneg	21	Ffrangeg
Mandarin	20	Sbaeneg
Arabeg	19	Arabeg
Sbaeneg	16	Mandarin
Iseldireg	13.5	Iseldireg
Pwyleg	10	Portiwgaleg
Eidaleg	8	Rwsieg
Japaneg	7	Swedeg
Hindi neu ieithoedd eraill India	6	Pwyleg

50. Economist (2017) 'Four BRICS don't quite make a wall', *Economist*. Ar gael drwy: <https://www.economist.com/news/finance-and-economics/21723133-brazil-russia-india-and-china-have-done-even-better-forecastthanks-mainly>

FFACTORAU DIWYLLIANNOL, ADDYSGOL, DIPLOMYDDOL A DIOGELWCH

Dangosydd 5 – Blaenoriaethau diplomyddol a diogelwch

Mae'r dangosydd hwn yn defnyddio data o gyfweiliadau ac ymchwil desg sy'n canolbwyntio ar anghenion cyfredol ac arfaethedig y Deyrnas Unedig ym meysydd diplomyddiaeth a diogelwch.⁵¹

Diplomyddiaeth

Mae'r gallu i siarad iaith y wlad sy'n lletya yn hanfodol ar gyfer 500–600 o swyddi yn y Swyddfa Dramor a Chymanwlad o amgylch y byd, yn seiliedig ar ofynion y swydd benodol a'r graddau y mae'n bosibl neu'n ddymunol cyfathrebu drwy ddefnyddio Saesneg yn unig.

Tabl 5: Ieithoedd blaenoriaeth y Swyddfa Dramor a Chymanwlad

Ieithoedd blaenoriaeth ar gyfer diplomyddiaeth		
Blaenoriaeth 1 (ieithoedd y Cenhedloedd Unedig)	<ul style="list-style-type: none"> • Arabeg • Ffrangeg • Mandarin 	<ul style="list-style-type: none"> • Rwsieg • Sbaeneg
Ieithoedd â Blaenoriaeth 2	<ul style="list-style-type: none"> • Ffarsi • Almaeneg • Japaneg • Corëeg 	<ul style="list-style-type: none"> • Portiwgaleg • Twrceg

Ffynhonnell: Cyfweiliad ag uwch swyddog o'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad, Gorffennaf 2017

Wrth i'r Deyrnas Unedig geisio sicrhau 'Prydain fyd-eang' wrth ymadael â'r UE, mae sgiliau iaith a dealltwriaeth rhyng-ddiwylliannol yn debygol o aros o leiaf yr un mor bwysig ag y maent ar hyn o bryd ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol llywodraeth EM yn effeithiol, yn Ewrop ac ymhellach. Mae oddeutu 80% o waith ieithyddol y Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn digwydd mewn 11 o ieithoedd blaenoriaeth, wedi'u rhannu'n ddau gategori o ran pwysigrwydd.

Amddiffyn

Mae personél milwrol wedi'u lleoli ar hyn o bryd mewn llawer o wledydd o amgylch y byd lle mae angen sgiliau iaith mewn ystod eang o swyddi ac ar wahanol lefelau. Mae rhai cannoedd o swyddi megis attachés amddiffyn, swyddogion cyswilt a staff cudd-wybodaeth, ynghyd â nifer eraill o ofynion gweithredol ar lefel is.

Mae'r angen am sgiliau iaith a diwylliannol yn y Weinyddiaeth Amddiffyn yn parhau i fod yn bwysig er mwyn helpu i baratoi am ymgyrchoedd i ddod, neu waith ymgysylltu ehangach o amgylch y byd.

Dywedodd Iarl I Attlee wrth y llywodraeth mewn trafodaeth ddiweddar yn Nhŷ'r Cyffredin: *'nid ydym yn gwybod pa iaith leol fydd yn berthnasol i'r ymgyrch fawr nesaf, na ph'un a fydd yn ymyrraeth hir neu fer'*.⁵² Mae Athrawiaeth Amddiffyn y Deyrnas Unedig yn cyfeirio sawl gwaith at yr angen am ddealltwriaeth

ddiwylliannol a sgiliau iaith, er enghraifft: *'Mae pa mor agos yw lluoedd ar y tir at boblogaethau lleol yn caniatáu iddyn nhw wahaniaethu rhwng gwahanol bobl a grwpiau, gan newid eu dull rhyngweithio fel sy'n briodol. Mae felly angen set unigryw o "sgiliau pobl" ar luoedd ar y tir, gan gynnwys empathi, deallusrwydd emosïynol, dealltwriaeth o ddiwylliant a hanes, a gallu i gyfathrebu yn yr iaith leol.'*⁵³

Yr Awdurdod Gofynion Amddiffyn dros Ddiwylliant a Iaith yw ceidwad gallu Diwylliannol ac iaith ar gyfer Amddiffyn, ac mae'n asesu personél mewn hyd at 50 o ieithoedd, yn dibynnu ar yr angen. Mae Canolfan Ieithoedd a Diwylliant ar gyfer Amddiffyn yn darparu hyfforddiant iaith i bersonél y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae gan y Weinyddiaeth Amddiffyn bersonél wedi'u profi a sy'n gyfredol mewn oddeutu 40 o ieithoedd⁵⁴ gyda grŵp arall o bersonél sydd â gallu ieithyddol cudd mewn dros gant o ieithoedd, ond nid ydynt wedi'u profi nac yn gyfredol ar hyn o bryd. Mae hyn yn galluogi'r Weinyddiaeth Amddiffyn i fodloni ei rhwymedigaethau cyfredol, ynghyd â darparu cronfa bosibl o sgiliau iaith sy'n gallu cefnogi gofynion gweithredol sy'n dod i'r amlwg. Mae natur anrhagwladwy'r gofynion hyn yn ei gwneud yn anodd darparu rhestr o ieithoedd yn ôl blaenoriaeth; caiff y gofyniad ei ddylanwadu gan yr amgylchedd gweithredu cyfoes, a'r angen gweithredol ac amddiffyn.

'Mae'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad wedi bod yn falch o'i gwybodaeth lleol a'i chyrhaeddiad byd-eang i wella buddiannau Prydain erioed, gyda sgiliau iaith arbennig wrth wraidd hyn. Bydd Prydain fyd-eang, ar ôl i ni ymadael â'r UE, hefyd yn galw am fwy o fuddsoddi mewn ieithoedd er mwyn adeiladu a chynnal y perthnasau – p'un a ydynt yn gorfforaethol neu'n ddiwylliannol, yn addysgol neu'n llywodraethol – i sicrhau Prydain sefydlog a llewyrchus sydd â chysylltiadau byd-eang, ynghyd â rhoi elfen gystadleuol i ni, a gwell dealltwriaeth o ddatblygiadau byd-eang a lleol.'

Caroline Wilson, Cyfarwyddwr, Adran Ewropeaidd, Y Swyddfa Dramor a Chymanwlad

51. Cyfweiliadau ag uwch staff y Swyddfa Dramor a Chymanwlad a'r Weinyddiaeth Amddiffyn ac adolygiad o wefannau'r Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Pencadlys Cyfathrebu (GCHQ) a gynhaliwyd yn ystod mis Gorffennaf 2017. Roedd arolwg 2013 yn seiliedig ar adroddiad yr Academi Brydeinig yn unig, sef *Lost for Words* – canlyniad ymchwil i sut caiff ieithoedd eu defnyddio gan lywodraeth y Deyrnas Unedig wrth fodloni blaenoriaethau polisi cyhoeddus mewn diplomyddiaeth a diogelwch. Roedd yr adroddiad yn adlewyrchu mewnbyn cyfansawdd gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, yr Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol a'r Pencadlys Cyfathrebu (GCHQ) ymhlith eraill. Fodd bynnag, nid oedd yr adroddiad wedi'i ddylunio i bennu pa ieithoedd oedd eu hangen fwyaf, ni wnaed adroddiad wedi hynny, ac nid yw wedi'i ddiweddarw ers refferendwm yr UE: yr Academi Brydeinig (2013) *Lost for Words*. Ar gael drwy: <https://www.britac.ac.uk/publications/lost-words-need-languages-uk-diplomacy-and-security>

52. *Hansard, trafodaeth yn Nhŷ'r Arglwyddi* 27 Hydref 2016.

53. Cyhoeddiad Joint Doctrine 0-20 *UK Land Power*, Gorffennaf 2017 (tud 16).

54. Ar lefel sy'n darparu gallu i amddiffyn.

Gwasanaethau cudd-wybodaeth

Mae Pencadlys Cyfathrebu Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyflogi ac yn hyfforddi ieithyddion mewn ystod o ieithoedd, ac ar hyn o bryd maent yn recriwtio arbenigwyr mewn Rwsieg, Arabeg a Mandarin.

Yr ieithoedd pwysicaf ar gyfer diplomyddiaeth a chudd-wybodaeth

Rydym wedi defnyddio ieithoedd blaenoriaeth y Swyddfa Dramor a Chymanwlad fel sail ar gyfer sgorio'r dangosydd hwn, gan ymgorffori pwysoliad bach i'r rolau arbenigedd iaith a hysbysebwyd gan y Pencadlys Cyfathrebu. Rydym yn dod i'r casgliad mai'r ieithoedd pwysicaf ar gyfer diplomyddiaeth a chudd-wybodaeth y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd yw Arabeg, Mandarin a Rwsieg, ac yna Ffrangeg a Sbaeneg, ynghyd â Ffarsi, Almaeneg, Japaneg, Portiwgaleg a Thwrceg.

Dangosydd 6 – Diddordebau iaith y cyhoedd

Mae'r dangosydd hwn yn cydnabod nad yw'r cyhoedd yn ymateb i anghenion a blaenoriaethau a fynegir yn rhywle arall mewn modd syml, ond fod ganddynt rôl yn eu siapio nhw trwy eu hymddygiadau a'u dewisiadau eu hunain. Felly, rydym wedi defnyddio cronfa ddata ar-lein o gyrsiau iaith, Hotcourses, er mwyn pennu pa ieithoedd sydd â'r galw uchaf o ran y cyhoedd.⁵⁵ Gyda'r cafeat fod y galw yn aml yn ddibynnol ar argaeledd y cyrsiau, defnyddiom y cyfleuster chwilio i gyfri nifer y cyrsiau lefel dechreuwyd sydd ar gael drwy'r Deyrnas Unedig ar gyfer pob iaith. Gan nad oes cymwysterau ar gael ar gyfer pob iaith, chwiliom am gyrsiau nad oedd yn arwain at gymhwyster, ond yn cynnwys y rheiny sy'n cynnig tystysgrif cwrs. Dangosir nifer y cyrsiau, gan gynnwys cyrsiau ar-lein, a hysbysebwr ar gyfer pob iaith yn Nhabl 6.

Drwy ddefnyddio'r mesur hwn, Sbaeneg, Eidaleg, Ffrangeg, Almaeneg a Tsieinëeg Mandarin sydd yn y pum safle uchaf o ran poblogrwydd ar lawr gwlad. Defnyddiwyd yr un mesur yn 2013, a does dim unrhyw newidiadau sylweddol yn niddordebau ieithyddol y cyhoedd ers hynny, heblaw fod nifer y cyrsiau a gynigir ar gyfer Eidaleg nawr yn uwch na Ffrangeg. Yn achos y gorgyffwrdd rhwng y cyrsiau y cyfeirir atynt fel Mandarin neu Tsieinëeg, nid ydym wedi cyfuno'r ddau ffigur, ond dylech nodi bod y cyfanswm yn uwch na'r ffigur ar gyfer Tsieinëeg wrthi'i hun, sy'n golygu eu bod yn cael eu cynnig yn ehangach na Japaneg (ac Almaeneg o bosibl).

Mae arolwg o ddarpariaeth ieithoedd ar hyd y sefydliad mewn prifysgolion yn datgelu bod poblogrwydd Japaneg ac Almaeneg yn cynyddu ymhlith myfyrwyr sy'n dewis astudio iaith ochr yn ochr â'u cwrs gradd, tra bod canolfannau ieithoedd prifysgolion yn fwy tebygol o adrodd bod niferoedd dysgu ar gyfer Arabeg ac Eidaleg wedi gostwng.⁵⁶ Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys cyfran fawr o fyfyrwyr o dramor, ac mae'r adroddiad yn nodi bod poblogrwydd Japaneg o leiaf yn rhannol o achos y galw cynyddol gan fyfyrwyr o Tsieina a Chorea.

Tabl 6: Cyrsiau iaith sydd ar gael i'r cyhoedd

iaith	Nifer y cyrsiau a gynigiwyd yn 2017
Sbaeneg	208
Eidaleg	167
Ffrangeg	158
Almaeneg	69
Mandarin/ Tsieinëeg	51 'Tsieinëeg' a 37 'Mandarin', (gyda rhywfaint o orgyffwrdd)
Japaneg	54
Arabeg	26
Portiwgaleg	23
Rwsieg	23
Pwyleg	18

Ffynhonnell: www.hotcourses.com

55. www.hotcourses.com

56. UCML/AULC (2017) Arolwg o Ddarpariaeth Ieithoedd ar hyd y Sefydliad mewn Prifysgolion, 2016/17. Ar gael drwy: www.aulc.org/wp-content/uploads/2017/10/UCML_AULC_2016-2017.pdf

Dangosydd 7 – Twristiaeth ac ymweliadau tramor eraill

Mae cyrchfannau ymwelwyr o wledydd Prydain yn rhoi syniad da o gyfnewid rhwng gwahanol wledydd a phobloedd. Mae cyrchfan twristiaid Prydeinig ac ymwelwyr eraill dramor yn gynrychioladol o'r graddau y mae pobl yn y Deyrnas Unedig fel arfer yn

cysylltu â siaradwyr ieithoedd eraill. Mae patrymau rhyngweithio dramor yn amodol ar y gallu i siarad yr iaith: mae'n bosibl bod y rheiny nad ydynt yn medru'r iaith yn talu mwy am nwyddau a gwasanaethau, yn aros mewn trefi gwyliau yn bennaf yn hytrach na phrofi'r diwylliant lleol, neu'n poeni y gallent bechu neu roi eu hunain mewn perygl hyd yn oed.⁵⁷

Siart 11: Ymweliadau o'r Deyrnas Unedig



Ffynhonnell: Tueddiadau Teithio 2016 y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae data ymwelwyr y Swyddfa Ystadegau Gwladol (sy'n cynnwys teithio at ddibenion busnes a dibenion eraill), a gyhoeddwyd ym mis Mai 2017 yn dangos mai Sbaen, Ffrainc a'r Eidal yw'r tair gwlad yr ymwelwyd â nhw amlaf (gan gynnwys gwledydd sy'n siarad Saesneg). Mae hyn yr un peth ag adeg ein hadroddiad yn 2013. Mae eu hieithoedd felly yn parhau i fod yn bwysig at ddibenion twristiaeth.⁵⁸ Mae Iseldireg a Phortiwgaleg hefyd yn bwysig fel ieithoedd twristiaeth, ac yn dod yn gynyddol bwysig wrth

i Bortiwgal a'r Iseldiroedd ddod yn lleoliadau cynyddol boblogaidd i ymwelwyr Prydeinig. I'r gwrthwyneb, mae'r Almaen, Groeg a Gwlad Pwyl wedi cwmpo yn y tabl, ac nid yw Twrci yn neg prif leoliad twristiaid y Deyrnas Unedig bellach, sy'n adlewyrchu'r difrod diweddar a wnaed i ddiwydiant twristiaeth y wlad gan helynt gwleidyddol ac ymosodiadau terfysgol.⁵⁹

Mae gan ieithoedd hefyd rôl i'w chwarae wrth groesawu ymwelwyr o dramor i'r Deyrnas Unedig.⁶⁰


57. Ymchwil gan Populus a ddyfynnwyd yn astudiaeth 2013: Tinsley a Board (2013) *Ieithoedd y Dyfodol*, op. cit. tudalen 15.

58. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2017) 'Top 10 countries visited by UK residents', Tueddiadau Teithio 2016. Ar gael drwy: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/leisureandtourism/articles/traveltrends/2016>

59. Cronfa Ariannol Ryngwladol (2017) 'Turkey's economy hit by declining tourism'. Ar gael: <https://www.imf.org/en/News/Articles/2017/02/21/NA230217Turkeys-Economy-Hit-By-Declining-Tourism>

60. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2016) 'Overseas residents' visits to the UK', Tueddiadau Teithio 2016, op. cit.

Siart 12: Ymweliadau â'r Deyrnas Unedig



Ffynhonnell: Tueddiadau Teithio 2016 y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yn yr Alban, o'r Almaen y daw'r nifer uchaf o dwristiaid, ac mae'r Alban wedi nodi Rwsia, India, Tsieina, Norwy a Sweden fel marchnadoedd twristiaeth i'w datblygu.⁶¹

Dangosydd 8 – Blaenoriaethau ar gyfer addysg ryngwladol

Mae rhai ffactorau mawr anhysbys mewn perthynas â dyfodol cydweithio rhyngwladol y Deyrnas Unedig ym maes addysg yn y dyfodol.⁶² A fydd y Deyrnas Unedig yn parhau i gyfrannu i raglenni megis Erasmus+ neu Horizon 2020? Beth fydd statws gwladolion yr UE nad ydynt yn Brydeinwyr yn y dyfodol ym mhrifysgolion y Deyrnas Unedig, p'un ai'n staff neu'n fyfyrwyr? Mae Universities UK wedi cyhoeddi papur polisi yn amlinellu'r heriau i'r sector wrth i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r UE, sy'n cynnwys pryderon am recriwtio staff a myfyrwyr Ewropeaidd, colli arian ar gyfer ymchwil a llai o

gyfleoedd i staff a myfyrwyr deithio allan. Fodd bynnag, ar adeg argraffu'r adroddiad, does dim unrhyw strategaeth drosfwaol sy'n gosod blaenoriaethau'r llywodraeth ar gyfer ymgysylltu addysgol rhyngwladol wedi'i chyhoeddi.

Mae adroddiad gan Ymgynghorwyr Digital Science ar gyfer Universities UK, a oedd yn edrych ar ymchwil cydweithredol rhyngwladol ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r UE, yn nodi bod ymchwil cydweithredol â gwledydd yr UE megis Ffrainc a'r Almaen wedi bod yn tyfu'n fwy cyflym na chymysgwledydd eraill, ac er y dylai'r Deyrnas Unedig fanteisio ar y cyfle i fod yn wirioneddol fyd-eang yn ei hagwedd, ni ddylid tanbriso rôl gwledydd yr UE.⁶³ Mae Universities UK yn nodi bod y chwe phrif wlad sy'n bartneriaid ymchwil i'r Deyrnas Unedig yn aelod-wladwriaethau'r UE.

61. Visit Scotland, 'Top 10 inbound countries to Scotland 2016', International Markets. Ar gael drwy: www.visitscotland.org/research_and_statistics/visitor_research/visitor_research_international.aspx

62. Yng nghyhoeddiad 2013 o'r ymchwil hwn, defnyddiwyd Strategaeth Addysg Ryngwladol 2013 y llywodraeth fel ffynhonnell ar gyfer y dangosydd hwn.

63. J Adams (2017) International Research Collaboration after the UK leaves the European Union, Ymgynghorwyr Digital Science. Ar gael drwy: www.universitiesuk.ac.uk/policy-and-analysis/reports/Documents/2017/international-collaboration-uk-post-exit.pdf

Mewn cydweithrediad ag Uned Polisi Coleg y Brenin, Llundain, mae Universities UK wedi cyhoeddi papur safbwynt ar gyfeiriadau'r Deyrnas Unedig yn y dyfodol yn yr amgylchedd ymchwil byd-eang ar ôl Brexit.⁶⁴ Mae'r papur yn codi cwestiynau ynghylch i ba raddau y dylai'r Deyrnas Unedig geisio sefydlu cytundebau dwyochrog mawr a chynhwysfawr gydag un neu ddwy wlad, neu nifer o gytundebau llai â gwahanol wledydd, a beth ddylai'r cydbwysedd fod rhwng partneriaid ymchwil pwysig sy'n bodoli eisoes megis yr Unol Daleithiau, a phwerau ymchwil sy'n dod i'r amlwg megis Tsieina. Mae'n cynnig nifer o wahanol senarios, ond nid yw'n darparu atebion i'r cwestiynau hyn, nac yn blaenoriaethu gwledydd penodol.

Mae'n debygol y bydd partneriaethau â gwledydd Ewrop mewn cydweithrediad addysgol rhyngwladol, fel yn y maes masnachol, yn parhau i fod yn bwysig ar ôl i ni ymadael â'r UE, yn enwedig gyda Ffrainc a'r Almaen, ac y bydd datblygu partneriaethau byd-eang newydd yn digwydd yn raddol. Fodd bynnag, mae'r amwysedd hwn yn peri anhawster wrth geisio rhagweld anghenion ieithyddol y dyfodol.

Gan fod y sefyllfa hon yn gymhleth iawn ac yn anodd ei darllen, rydym wedi defnyddio tri is-ddangosydd ar wahân ar gyfer cydweithio rhyngwladol cyfredol mewn addysg: ymchwil cydweithredol wedi'i fesur yn ôl y cyhoeddiadau ar y cyd; myfyrwyr rhyngwladol yn dod i'r Deyrnas Unedig; a myfyrwyr addysg uwch y Deyrnas Unedig yn mynd i wledydd eraill.

Tabl 7: Ymchwil rhyngwladol ar y cyd

Gwledydd	Ieithoedd
Yr Unol Daleithiau	Saesneg, defnydd eang o Sbaeneg hefyd
Yr Almaen	Almaeneg
Ffrainc	Ffrangeg
Yr Eidal	Eidaleg
Awstralia	Saesneg
Tsieina	Mandarin
Yr Iseldiroedd	Iseldireg
Sbaen	Sbaeneg
Canada	Saesneg, mae Ffrangeg hefyd yn iaith swyddogol
Y Swistir	Ffrangeg/ Almaeneg
Sweden	Swedeg
Gwlad Belg	Iseldireg/ Ffrangeg
Japan	Japaneg
Denmarc	Daneg
Iwerddon	Saesneg / Gwyddeleg
Brasil	Portiwgaleg

Gwledydd sydd â'r nifer uchaf o gyhoeddiadau ymchwil a luniwyd ar y cyd â'r Deyrnas Unedig, 2012–17, a'u hieithoedd.⁶⁵

Tabl 8: Myfyrwyr rhyngwladol yn dod i'r Deyrnas Unedig

Gwledydd cartref	Ieithoedd
Tsieina	Mandarin
Yr Unol Daleithiau	Saesneg, defnydd eang o Sbaeneg hefyd
Ffrainc	Ffrangeg
Yr Almaen	Almaeneg
India	Hindi, Wrddw ac ieithoedd eraill India
Malaysia	Maleieg
Nigeria	Igbo, Yoruba, Hausa ac eraill
Yr Eidal	Eidaleg
Hong Kong	Cantoneg
Sbaen	Sbaeneg
Gwlad Groeg	Groeg

Gwledydd cartref y niferoedd uchaf o fyfyrwyr newydd i astudio mewn sefydliadau uwch yn y Deyrnas Unedig, 2015–16, a'u hieithoedd.⁶⁶

64. Universities UK/Uned Polisi, Coleg y Brenin, Llundain (2017) Positioning the UK within the Global Research Environment. Ar gael drwy: <https://www.kcl.ac.uk/sspp/policy-institute/publications/Positioning-the-UK-within-the-global-research-landscape.pdf>

65. Data gan Scopus, allforiwyd 13 Mehefin 2017.

66. Data cofrestru safonol HESA (2017).

Tabl 9: Symudedd rhyngwladol myfyrwyr y Deyrnas Unedig

Gwledydd cyrchfan	Ieithoedd
Unol Daleithiau	Saesneg, defnydd eang o Sbaeneg hefyd
Ffrainc	Ffrangeg
Yr Iseldiroedd	Iseldireg
Yr Almaen	Almaeneg
Awstralia	Saesneg
Iwerddon	Saesneg/ Gwyddeleg
Yr Emiraethau Arabaidd Unedig	Arabeg
Denmarc	Daneg
Awstria	Almaeneg
Y Swistir	Almaeneg/ Ffrangeg
Sbaen	Sbaeneg
Gweriniaeth Tsiec	Tsieceg
Seland Newydd	Saesneg
Bwlgaria	Bwlgareg
Hwngari	Hwngareg
Yr Eidal	Eidaleg

Prif wledydd cyrchfan myfyrwyr addysg trydyddol y Deyrnas Unedig, 2015, a'u hieithoedd. Mae hyn yn cynnwys myfyrwyr sy'n cyflawni astudiaeth am o leiaf naw mis y tu allan i'r Deyrnas Unedig.⁶⁷

Mae safle'r Saesneg fel yr iaith amlycaf mewn cydweithrediad addysgol rhyngwladol yn cymhlethu'r defnydd o'r data hwn i ragfynegi anghenion ieithyddol. Caiff myfyrwyr o'r Deyrnas Unedig sy'n mynd i wledydd eraill eu hatynnu gan gyrsiau tramor sy'n cael eu cynnal yn Saesneg – ac o achos hynny mae'r Iseldiroedd a Denmarc yn uchel ar y rhestr. Mae Bwlgaria a Hwngari wedi'u cynnwys gan iddynt weld cynnydd mawr yn nifer y myfyrwyr o'r Deyrnas Unedig yn ystod blynyddoedd diweddar. Nid ydym yn gwybod sut bydd ymadael â'r UE yn effeithio ar gyfleoedd o'r fath ar gyfer gwladolion y Deyrnas Unedig, ond o ystyried y ffioedd uchel y mae prifysgolion y Deyrnas Unedig yn eu codi, mae'n debygol y gallai opsiynau o'r fath ddal i fod yn atyniadol. Mae rhai myfyrwyr sy'n gadael y Deyrnas Unedig yn dewis gwledydd yn unswydd o achos y cyfle i ddysgu neu wella ieithoedd y mae ganddynt ddi-ddordeb ynddynt: mae'r ffactor hwn yn debygol o gyfrannu at nifer uchel y myfyrwyr o'r Deyrnas Unedig sy'n astudio yn Ffrainc, yr Almaen, Sbaen a'r Eidal.

Yn yr un modd, mae'r cyfle i fyw ac astudio mewn gwlad sy'n siarad Saesneg yn atyniad mawr i fyfyrwyr sy'n dewis dod i astudio mewn prifysgolion yn y Deyrnas Unedig. Mae'n debygol bod Saesneg hefyd yn chwarae rôl fawr mewn ymchwil ar y cyd, ac mai dyma'r iaith amlycaf mewn cyhoeddiadau a lunnir ar y cyd, ond mae'n anodd dweud i ba raddau y mae hyn yn amrywio rhwng gwledydd. Yr hyn y gallwn ei ddweud yw y bydd ymchwil rhyngwladol ar y cyd yn dod â gwladolion y Deyrnas Unedig i gysylltiad â phobl sy'n siarad ieithoedd eraill drwy un ffordd neu'i gilydd, p'un ai drwy deithio, deunydd ffynhonnell neu gyfathrebu â chydweithwyr.

Mae'n anochel fod presenoldeb gwladolion tramor ym mhrifysgolion y Deyrnas Unedig yn creu cysylltiadau agosach rhwng y Deyrnas Unedig a'r gwledydd hyn. Gyda chynnydd o ran lefelau teithio a masnachu o bosibl hefyd, gallwn ragweld diddordeb, ac angen, cynyddol i siarad eu hieithoedd a deall eu diwylliannau.

Caiff i ba raddau y caiff Saesneg ei defnyddio ei ystyried yn Nangosydd 9, ac felly rydym wedi trin yr holl wledydd nad ydynt yn siarad Saesneg yn hafal, waeth beth yw'r defnydd tebygol o Saesneg.

Drwy ystyried yr holl ddata gyda'i gilydd, rydym wedi cynhyrchu rhestr o'r deg prif iaith sy'n debygol o fod fwyaf nodedig mewn addysg ryngwladol. Mae'r canlyniadau fel a ganlyn:

Tabl 10: Y deg prif iaith ar gyfer addysg ryngwladol

Ffrangeg
Almaeneg
Mandarin
Iseldireg
Sbaeneg ac Eidaleg (yn sgorio'n gyfartal)
Daneg
Hindi a ieithoedd eraill India
Arabeg
Maleieg

67. Sefydliad Ystadegau UNESCO, Addysg, 13 Mehefin 2017.

Dadansoddiad interim o ieithoedd at ddibenion diwylliannol, addysgol, diplomyddol a diogelwch

Mae Ffrangeg, Almaeneg ac Eidaleg oll yn ymddangos yn bwysicach nac o'r blaen, ac mae Iseldireg, Rwsieg a Japaneg wedi cyrraedd y deg prif iaith

sydd eu hangen ar gyfer yr hyn rydyn ni'n ei alw'n ddibenion 'nad ydynt yn fasnachol'. I'r gwrthwyneb, mae Sbaeneg, Arabeg a Phortiwgaleg wedi cwmpo'n is yn y tabl (er bod Sbaeneg yn dal i ymddangos yn ail), ac mae Pwyleg, Ffarsi a Thwrceg wedi gadael y tabl. Byddai Pwyleg wedi dod nesaf yn safle 11, yn gyfartal â Groeg a Daneg.

Tabl 11: Yr ieithoedd sydd eu hangen at ddibenion diwylliannol, addysgol, diplomyddol a diogelwch

ieithoedd		Sgoriau 2017 o ddangosyddion 5-8	Safleoedd 2013
Ffrangeg	▲	32	Sbaeneg
Sbaeneg	▼	30.5	Arabeg
Almaeneg	▲	24	Portiwgaleg
Eidaleg	▲	22.5	Ffrangeg
Mandarin	—	21	Mandarin
Iseldireg	▲	13	Eidaleg
Arabeg	▼	13.5	Almaeneg
Portiwgaleg	▼	12.5	Thwrceg
Rwsieg	▲	9.5	Pwyleg
Japaneg	▲	8	Ffarsi

FFACTORAU CYDBWYSO

Dangosydd 9 – Lefelau gallu'r Saesneg mewn gwledydd eraill

Roedd cyfanswm o 72 o wledydd wedi'u cynnwys yn rhifyn diweddaraf arolwg English First, sy'n meincodi gallu yn y Saesneg.⁶⁸ Fel a wnaed yn ein hastudiaeth ddiwethaf, rydym wedi defnyddio'r data hwn i ystyried i ba raddau y mae'n bosibl i'r Deyrnas Unedig osgoi'r angen i siarad iaith arall

drwy siarad Saesneg. Rhoesom un pwynt i iaith pob gwlad oedd â gallu cymedrol, dau bwynt ar gyfer gallu isel a thri phwynt ar gyfer gallu isel iawn.

Rhwng 2012 a 2016, mae lefelau Saesneg wedi gwella mewn rhai gwledydd (Chile, Brasil a'r Emiraethau Arabaidd Unedig o isel iawn i isel; Indonesia, Taiwan a Fietnam o isel i gymedrol; Portiwgal o gymedrol i uchel; a Singapore o uchel i uchel iawn). Fodd

bynag, mae lefelau'r Saesneg wedi gostwng yn Iran, Twrci a Qatar (o isel i isel iawn), ac yn Japan o gymedrol i isel. Mae'r dystiolaeth hon yn bwysig gan ei bod yn dangos nad yw lefelau'r Saesneg yn gwella'n ddiwrthdro ar draws y byd. Mae Arabeg a Sbaeneg, a siaredir mewn nifer fawr o wledydd lle bo lefelau Saesneg yn weddol isel, yn sgorio'n uchel yn erbyn y dangosydd hwn.

Tabl 12: Lefelau gallu yn Saesneg

Lefelau gallu yn Saesneg	Gwledydd sy'n berthnasol i'r astudiaeth hon ⁶⁹	Yr ieithoedd perthnasol
Isel iawn	Colombia, Panama, Twrci, Tiwnisia, Guatemala, Kazakhstan, Yr Aifft, Gwlad Thai, Azerbaijan, Sri Lanca, Qatar, Feneswela, Iran, Gwlad yr Iorddonen, El Salvador, Oman, Kuwait, Mongolia, Algeria, Saudi Arabia, Cambodia, Laos, Libya, Irac	Sbaeneg (5); Twrceg (1), Arabeg (10); Kazakh, Thai, Azari, Tamil, Sinhaleg, Ffarsi, Mongoleg, Khmer, Lao (a Ffrangeg)
Isel	Rwsia, Japan, Uruguay, Macau, Costa Rica, Tsieina, Brasil, Wcrain, Chile, Mecsico, Moroco, Periw, yr Emiraethau Arabaidd Unedig, Ecwador, Pacistan	Rwsieg, Japaneg, Sbaeneg (6), Tsieinëeg (2), Portiwgaleg, Wcreineg, Arabeg, (2), Wrddw (a Phortiwgaleg a Ffrangeg)
Cymedrol	Slofacia, India, y Weriniaeth Ddominicaidd Bwlgaria, Sbaen, Bosnia a Hertsegofina, De Corea, yr Eidal, Ffrainc, Hong Kong, Fietnam, Indonesia, Taiwan	Slofaceg, Hindi/Wrddw, ieithoedd India, Sbaeneg (2), Bwlgareg, Bosnieg, Corëeg, Eidaleg, Ffrangeg, Mandarin, Cantoneg, Fietnameg, Indoneseg
Uchel	Awstria, yr Almaen, Gwlad Pwyl, Gwlad Belg, Malaysia, Ynysoedd Philippines, y Swistir, Portiwgal, y Weriniaeth Tsiec, Serbia, Hwngari, Ariannin, Romania	Almaeneg, Pwyleg, Ffrangeg, Iseldireg, Maleieg, Tagalog, Portiwgaleg, Tsieceg, Serbeg, Hwngareg, Sbaeneg, Rwmaneg
Uchel iawn	Yr Iseldiroedd, Denmarc, Sweden, Norwy, y Ffindir, Singapore, Lwcsembwrg	Iseldireg, Daneg, Swedeg, Norwyeg, Ffinneg, Tsieinëeg, Maleieg, Ffrangeg, Almaeneg

68. English First (2016) *English Proficiency Index*. Ar gael drwy: www.ef.co.uk/epi/

69. Yn cynnwys y rheiny a grybwyllwyd mewn perthynas â dangosyddion eraill yn unig.


Dangosydd 10 – Mynychder gwahanol ieithoedd ar y we

Yn 2017, yr ail iaith amlycaf ar y we, yn dilyn Saesneg, oedd Tsieinëeg, er i'w chyfran ostwng o 24% i 20%.⁷⁰ Mae Saesneg hefyd wedi colli rhywfaint o'i thir, gan ostwng o 27% i 26%, ac mae'r gyfran o ieithoedd sydd heb eu henwi'n benodol wedi codi o 18% i 23%, sy'n

dangos bod y we yn dod yn fwy amrywiol yn ieithyddol.

O gymharu â ffigurau a ddefnyddiwyd yn 2013 o'r un ffynhonnell, mae Coreëg wedi cael ei disodli gan Faleieg, ond mae'r holl ieithoedd eraill wedi aros yn y deg uchaf. Mae Japaneg, Almaeneg a Ffrangeg wedi symud yn is yn y tabl, ond mae Arabeg a Rwsieg wedi codi.

Siart 13: Defnydd o'r we yn ôl iaith 2017



Ffynhonnell: Internet World Stats⁷¹

70. Nid yw'r ffynhonnell yn manylu ymhellach.

71. Internet World Stats (2017) Internet World Users by Language. Ar gael drwy: www.internetworldstats.com/stats7.htm

Y DEG IAITH BWYSICAF

Drwy gyfuno'r data o'r deg dangosydd, arweiniwyd at y drefn ganlynol o ran pwysigrwydd. Sbaeneg oedd yr iaith bwysicaf, ac yna Mandarin, Ffrangeg, Arabeg ac Almaeneg. Mae rhywfaint o fwch cyn daw Eidaleg ac Iseldireg, ac yna Portiwgaleg, Japaneg a Rwsieg (gweler yr atodiad ar gyfer y sgoriau cyfansawdd).

Dylid nodi, wrth gymharu â 2013, nad yw'r pum prif iaith wedi newid, er eu bod mewn trefn ychydig yn wahanol. Sbaeneg yw'r iaith â'r sgôr uchaf yn dal i fod, ond mae Mandarin a Ffrangeg wedi mynd heibio i Arabeg ar ddangosyddion 2017. Mae ein hymchwili yn atgyfnerthu'r canfyddiadau blaenorol, mai dyma'r pum iaith bwysicaf i siaradwyr y Deyrnas Unedig. Nid ydym o'r farn bod eu trefn yn arbennig o bwysig: mae hyn yn debygol o newid yn dibynnu ar ba ddangosydd penodol y rhoddir pwyslais arno. Yr hyn sy'n nodedig yw bod y pum iaith hon yn sgorio gryn dipyn yn uwch na'r rheiny sy'n is yn y tabl.

Yn hanner gwaelod y tabl, mae pwysigrwydd Rwsieg a Phortiwgaleg wedi gostwng, ac mae Twrceg wedi gadael y tabl. Fel y trafodwyd uchod, mae modd esbonio'r newidiadau hyn drwy newidiadau yn amgylchiadau economaidd a gwleidyddol y gwledydd dan sylw – Brasil yn achos Portiwgaleg. Mae'r Eidaleg a Japaneg wedi symud un safle'n uwch. Mae hyn yn rhannol o achos y defnydd o ddata masnach ar nwyddau a gwasanaethau yn yr adroddiad hwn, o gymharu â nwyddau'n unig yn 2013, a chan fod y Deyrnas Unedig wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth gynyddu ei hallforion gwasanaethau i'r Eidal a Japan. Mae Iseldireg wedi cyrraedd y tabl ac yn disodli Twrceg, sy'n adlewyrchu'r lefel uchel o fasnachu'r Deyrnas Unedig sy'n mynd trwy borthladdoedd yr Iseldiroedd, ynghyd ag agosrwydd a chysylltiadau diwylliannol rhwng yr Iseldiroedd a'r Deyrnas Unedig ym meysydd twristiaeth, ymchwil a chyhoeddiadau academaidd.

OTHER LANGUAGES

Nid ein nod yw awgrymu mai'r deg iaith uchaf a nodwyd yw'r unig ieithoedd a fydd yn bwysig i'r Deyrnas Unedig yn y dyfodol, ond cyfeirio at y rheiny a fydd yn sicr yn hanfodol dros y tymor canolig i'r tymor hir. Mae'n bwysig ystyried ieithoedd eraill a all gynyddu yn eu pwysigrwydd, ac a dderbyniodd sgôr uchel yn ein dadansoddiad, megis Pwyleg, Maleieg, Twrceg, Hindi a ieithoedd eraill yn India.

Mae safle Pwyleg yn ganlyniad i nifer uchel y siaradwyr Pwyleg yn y Deyrnas Unedig, sy'n arwain at lefel uchel o deithio a chyfnewid, a'r posibilrwydd o ddatblygu masnachu rhwng y Deyrnas Unedig a Gwlad Pwyl. Mae Siembrau Masnach Prydain yn nodi mai Gwlad Pwyl yw un o'r economïau sy'n tyfu gyflymaf yn yr UE gyda marchnad ddomestig gref, a dyma unig economi Ewrop wnaeth osgoi'r dirwasgiad rhwng 2008 a 2013.⁷²

Tabl 13: Y deg iaith bwysicaf

2017		2013
Sbaeneg	—	Sbaeneg
Mandarin	▲	Arabeg
Ffrangeg	—	Ffrangeg
Arabeg	▼	Mandarin
Almaeneg	—	Almaeneg
Eidaleg	▲	Portiwgaleg
Iseldireg	▲	Eidaleg
Portiwgaleg	▼	Rwsieg
Japaneg	▲	Twrceg
Rwsieg	▼	Japaneg

72. Siembrau Masnach Prydain, Cipluniau o'r Farchnad: Gwlad Pwyl. Ar gael drwy: <http://exportbritain.org.uk/market-snapshots/poland.html>

73. Vanita Kohli-Khandekar (2017) 'Republic TV will have to go beyond Arnab to crack the news market', The Wire. <https://thewire.in/123344/arnab-goswami-republic-times-now-money/>

Er nad yw yn y deg uchaf, mae Maleieg wedi cael sgôr uchel o ganlyniad i'w phwysigrwydd cynyddol ar y we, presenoldeb Byddin Prydain yn Brunei, a thwf economaidd Malaysia a chysylltiadau diwylliannol hirdymor â Phrydain fel aelod o'r Gymanwlad. Mae Maleieg yn perthyn yn agos i Indoneseg, felly byddai unrhyw gymhwysedd yn un yn rhoi mynediad at y llall.

Mae Twrceg wedi gadael y deg uchaf y tro hwn, ond mae'n dal i fod mewn safle uchel fel iaith sy'n debygol o fod yn bwysig i'r Deyrnas Unedig yn y dyfodol, o ystyried maint a lleoliad strategol Twrci, a nifer y siaradwyr.

Mae ieithoedd India yn bwysig o achos safle India fel ail wlad fwyaf poblog y byd a phŵer economaidd a gwleidyddol sy'n tyfu. Mae'n hawdd goramcangyfrif pwysigrwydd Saesneg: dangosodd adolygiad diweddar o 390 o sianeli darlledu India, bod sianeli Saesneg yn cyfrif am lai nag 1% o'r farchnad, gan gyrraedd pedair miliwn o bobl y diwrnod, o gymharu â 117 miliwn yn clywed Hindi.⁷³ Mae Panjabi, Wrddw a Bengali ymhlith yr ieithoedd a siaredir fwyaf ymhlith plant dwyieithog yn ysgolion y Deyrnas Unedig, ac mae arholiadau TGAU a Safon Uwch ar gyfer y rhain ar gael, ynghyd â Gujarati.



CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

Mae ymgais y Deyrnas Unedig i ddod yn bŵer masnachu rhyngwladol y tu hwnt i Ewrop yn fater o frys o ganlyniad i'r bleidlais i ymadael â'r UE. Mae'r sefyllfa hefyd wedi amlygu pwysigrwydd ein cydgysylltiad parhaus â gwledydd Ewrop sydd agosaf i ni'n ddaeryddol.

Mae ein gallu i lwyddo mewn amgylchedd byd-eang cystadleuol ac i gyflawni uchelgais Prydain fyd-eang ar ôl Brexit – fel unigolion, fel gwlad neu mewn busnes – yn fwy dibynnol fyth ar feddu ar y set gywir o sgiliau er mwyn ymgysylltu'n rhyngwladol. Mae cymhwysedd ieithyddol yn llawer mwy nag arf ychwanegol; mae'n hanfod ac yn hwyluswr ar gyfer datblygu sbectwm eang o sgiliau a nodweddion hanfodol eraill. Heb sgiliau iaith, rydym ar ein colled nid yn unig trwy ein diffyg gallu i gyfathrebu'n rhyngwladol, ond yn bwysicach fyth drwy golli cyfleoedd am brofiad gwaith tramor, drwy ddiffyg synnwyr busnes rhyngwladol, drwy fetu â gwerthfawrogi fod gan ddiwylliannau eraill ffyrdd gwahanol o wneud pethau, a thrwy dueddiad posibl o orbriso pwysigrwydd byd-eang diwylliant Prydain.

Dadleuom yn 2013, er bod y miliynau o bobl sy'n dysgu Saesneg o amgylch y byd yn rhoi mantais enfawr i ni, ein bod ar ei hôl hi gan nad ydym wedi neilltuo digon o amser, adnoddau nac ymdrech i ddysgu ieithoedd gwledydd eraill. Byddai'n anodd dadlau ein bod ni wedi gwneud llawer o welliant yn y cyfnod ers hynny. Nawr, fel yn 2013, mae diffyg sgiliau iaith a'r diffyg gwybodaeth ddiwylliannol ac ymwybyddiaeth rhyngwladol o ganlyniad i hynny, yn parhau i fod yn berygl i lwyddiant economaidd, dylanwad a safle'r Deyrnas Unedig yn y byd, ynghyd ag i allu ein dinasyddion i chwarae rôl arwyddocaol ar y llwyfan rhyngwladol. Yn ogystal, nid oes llawer o gynnydd byd-eang wedi bod o ran dysgu Saesneg fel iaith

dramor. Mae angen ieithoedd eraill, nid yn unig ar gyfer llwyddo yn yr economi fyd-eang, ond i adeiladu hyder, dyfnhau dylanwad rhyngwladol a pherthnasau diwylliannol, a chadw'n gwlad yn ddiogel.

Mae'r adolygiad diweddaraf hwn wedi cadarnhau bod pum iaith sydd â'r potensial i gyfrannu'r fwyaf i fuddiannau strategol y Deyrnas Unedig ar ôl Brexit: Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg, a gaiff eu dysgu'n eang ar hyd ein systemau addysgol, yn ogystal ag Arabeg a Tsieinëeg Mandarin. Dyma'r un ieithoedd â'r rhai a nodwyd yn ein hadroddiad yn 2013. O ystyried bod y pum iaith hyn wedi aros yn y pum safle uchaf o ran pwysigrwydd i'r Deyrnas Unedig, mae'n rhaid gwneud mwy o ymdrech gyson a systematig i gynyddu ein capasiti i'w siarad a'u deall nhw.

Heblaw am y pum iaith hyn, mae nifer o rai eraill rydym wedi dod i'r casgliad eu bod yn arbennig o bwysig, rhai Ewropeaidd a rhai nad ydynt yn Ewropeaidd: Eidaleg, Portiwgaleg, Iseldireg, Japaneg a Rwsieg. Bydd Twrceg hefyd yn parhau i fod yn bwysig, er ei bod wedi gadael y deg uchaf yn y cyfrifiad hwn. Yn dilyn y penderfyniad i ymadael â'r UE, nid oes awgrym o gwbl bod ieithoedd Ewropeaidd yn dod yn llai pwysig o ran y deg prif iaith y mae ar Deyrnas Unedig eu hangen. Ond yn is yn y rhestr, mae Maleieg, Thai, Fietnameg a ieithoedd India yn dod yn bwysicach na rhai o ieithoedd llai Ewrop megis Tsiegeg. Mae'r sefyllfa'n un gyfnewidiol, ac mae'n hollbwysig ein bod yn agor ein hopsiynau ieithyddol ac yn gwella ein capasiti i ddysgu. **Mae angen i**

ni symud oddi wrth y mantra mai Saesneg yw iaith ryngwladol busnes, a dod i ddeall mwy am bwysigrwydd ieithoedd eraill a'r amgylchiadau amrywiol y cânt eu defnyddio ynddynt yn lle Saesneg.

Mae ein hadroddiad yn dangos bod ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r UE yn annhebygol o olygu llai o angen am ieithoedd Ewropeaidd. Serch hynny, mae ein hawydd i ffurfio cynghreiria masnachu o amgylch y byd, a phwyslais newydd ar berthnasau dwyochrog, yn debygol o achosi galw am ystod eang o ieithoedd ynghyd â'r rheiny sy'n sail i'n capasiti ieithyddol ar hyn o bryd. Gall sefyllfa fregus darpariaeth ieithyddol mewn nifer o ysgolion a phrifysgolion, a'r diffyg llwybrau galwedigaethol, waethygu gallu ieithyddol y Deyrnas Unedig, sydd eisoes yn wan, ymhellach. Daw hynny hefyd ar adeg pan fo angen iddo ehangu – yn enwedig os daw'n anoddach recriwtio ieithyddion brodorol o dramor yn y dyfodol. Nid cyfrifoldeb adrannau addysg y Deyrnas Unedig yn unig yw mynd i'r afael â hyn, ond hefyd unigolion, busnesau a chyflogwyr.

Ein casgliad cyffredinol yw bod y Deyrnas Unedig nawr wedi cyrraedd pwynt hollbwysig, lle mae buddsoddi yn y gwaith o ddiweddarau sgiliau iaith y Deyrnas Unedig yn hanfodol. Bydd gallu poblogaeth y Deyrnas Unedig i ymgysylltu'n rhyngwladol yn ganolog i'r gwaith o gryfhau perthnasau economaidd, gwleidyddol, diwylliannol a rhwng pobl yn llwyddiannus yn Ewrop ac yn fyd-eang mewn blynyddoedd i ddod.

Rydym yn argymhell y canlynol:

- Nawr yw'r amser i ddechrau polisi newydd mentrus i wella addysg ieithoedd tramor i sicrhau 'Prydain fyd-eang' wedi'i thrawsnewid. Mae'n rhaid i gefnogaeth ar gyfer polisi o'r fath fod yn un draws-lywodraethol a thrawsbleidiol, gyda ffocws ar welliant parhaus i allu ieithyddol dros y tymor canolig i'r tymor hir.
- Dylai sgiliau iaith ffurfio rhan anhepgor o'r adolygiad strategol o sgiliau y bydd y Deyrnas Unedig ei angen ar ôl Brexit, a dylid ystyried unrhyw golledion posibl o allu ieithyddol o ganlyniad i lai o fewnfudo o Ewrop ac ymhellach. Mae'n hanfodol bod adolygiad o'r fath yn cynrychioli buddiannau sefydliadau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, a bod cyflogwyr a darparwyr ieithoedd yn gweithio ar y cyd i sicrhau y caiff anghenion busnes a sefydliadol o ran gallu ieithyddol eu bodloni.
- Dylai'r llywodraeth a busnesau ddarparu cyngor gwell i gwmnïau ar ddefnyddio a rheoli sgiliau iaith, yn enwedig pan fo'n berthnasol i gyflawni twf drwy allforio. Dylid defnyddio a datblygu'r dalent ieithyddol sydd ar hyd y Deyrnas Unedig a chymunedau lleiafrifol yn llawn.
- Dylai llywodraethau pedair gwlad y Deyrnas Unedig flaenoriaethu dysgu'r pum prif iaith a nodwyd yn yr adroddiad hwn fel rhai sy'n gyson bwysig, a defnyddio dull strategol o adeiladu capasiti mewn Arabeg a Tsieinëeg Mandarin, ynghyd â Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg. Mae cyfleoedd i ddefnyddio dulliau llwyddiannus y Rhaglen Arbenigedd Mandarin yn Lloegr a strategaeth Tsieina yr Alban.
- Dylai ysgolion flaenoriaethu dysgu ieithoedd ynghyd â phynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM) a rhoi pob cyfle i ddisgyblion ddatblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o ieithoedd a diwylliannau eraill.
- Dylai adrannau addysg a rheoleiddwyr weithio ar y cyd i sefydlu gofynion o ran faint o amser y dylid ei dreulio yn dysgu ieithoedd ar lefel cynradd ac uwchradd, a sicrhau y glynir atynt. Yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, dylid ceisio gwneud dysgu ieithoedd yn statudol mewn ysgolion cynradd fel ag y mae yn Lloegr a'r Alban.
- Dylai darparwyr addysg ystyried angen y Deyrnas Unedig yn y dyfodol am gapasiti rhyngwladol ar ôl Brexit, a dylai arbenigedd mewn ieithoedd, diwylliannau a materion rhyngwladol yn ein sector prifysgolion gael eu diogelu'n strategol.
- Dylai darparwyr addysg bellach ac addysg uwch ddatblygu eu cynnig o fodiwlau ychwanegol neu unedau cyfunol ar gyfer ieithoedd o fewn cyrsiau galwedigaethol a graddau, ac annog y myfyrwyr i'w dewis.
- Dylai unigolion (yn rhieni, pobl ifanc ac oedolion) ystyried yr angen i ddysgu ieithoedd, a manteision hynny, a chymryd cyfrifoldeb am eu dysgu drwy'r system addysg ffurfiol, darparwyr preifat, neu'r llw o adnoddau dysgu ieithoedd sy'n rhad ac am ddim.
- Dylai swyddogion negodi llywodraeth y Deyrnas Unedig ddiogelu a blaenoriaethu rhaglenni cyfnewid addysg yn y gwaith negodi wrth ymadael â'r UE, a sicrhau eu parhad. Gwneir hyn yn ddelfrydol drwy sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn cadw aelodaeth lawn yn y rhaglen Erasmus+, neu os nad yw hyn yn bosibl, drwy geisio atgynhyrchu ei buddiannau drwy drefniadau dwyochrog sydd o leiaf yn gyfwerth.
- Dylai llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon enwebu a phenodi aelod iaith ar lefel y Cabinet.

ARABEG

العربية

Gyda thros 230 miliwn o siaradwyr brodorol a 100–200 miliwn arall o bobl ar draws gogledd Affrica a gorllewin Asia sy'n ei siarad fel ail iaith, Arabeg yw'r bedwaredd iaith a siaredir fwyaf yn y byd.

Mae ganddi statws swyddogol (fel un o ddwy iaith ar adegau e.e. ym Moroco, Somalia ac Israel) mewn 25 gwlad: Algeria, Bahrain, Chad, Comoros, Djibouti, yr Aifft, Eritrea, Irac, Israel, Gwlad yr Iorddonen, Kuwait, Lebanon, Libya, Mauritania, Moroco, Oman, Palesteina, Qatar, Saudi Arabia, Somalia, Swdan, Syria, Tiwnisia, yr Emiraethau Arabaidd Unedig ac Yemen. Mae gallu nifer o'r gwledydd hyn mewn Saesneg yn isel neu'n isel iawn.

O achos ffurf ysgrifenedig safonedig gyffredin yr iaith, ynghyd â threftadaeth ddiwylliannol/grefyddol a rennir, mae'r mwyafrif yn ystyried pob amrywiad o Arabeg fel ffurfiau ar un iaith. Fodd bynnag, ym mwyafrif y gwledydd sy'n siarad Arabeg, dim ond y rheiny sydd ag addysg ffurfiol sy'n medru siarad Arabeg safonol. Mae Arabeg llafar modern yn wahanol iawn o un rhanbarth i'r llall, ac mae'n bodoli fel continwmm tafodieithol ar draws y rhanbarth sy'n siarad Arabeg. Defnyddir sgrïpt Arabeg hefyd mewn ieithoedd megis Ffarsi, Wrddw a Pashto.

Mae Arabeg yn iaith swyddogol i nifer o sefydliadau rhyngwladol, gan gynnwys y Cenhedloedd Unedig, y Llys Troseddol Rhyngwladol a Sefydliad Iechyd y Byd, ynghyd â sefydliadau rhanbarthol megis Undeb Affrica, y Sefydliad Cydweithredu Islamaidd a'r Gynghair Arabaidd.

BUDDIANNAU I FUSNES

Yn 2016, ymddangosodd gwledydd Arabaidd y Gwlff yn y rhestr o ddeg prif farchnad allforio nad ydynt yn siarad Saesneg y Deyrnas Unedig, gydag allforion o nwyddau a gwasanaethau a oedd yn werth bron i £16 miliwn.⁷⁴ Mae chwe gwlad arall sy'n siarad Arabeg yn yr 50 o farchnadoedd allforio pwysicaf i'r Deyrnas Unedig, ac mae'r CBI yn adrodd bod y gyfran o fusnesau sy'n nodi bod Arabeg yn bwysig i'w busnes wedi cynyddu (o 19% yn 2012 i 26% yn 2017).⁷⁵ Mae cyfleoedd arbennig ar gael i gwmnïau Prydain, yn enwedig wrth gefnogi'r gwaith eang ar isadeiledd sydd wedi'i gynllunio yn y rhanbarth. Ymhlith marchnadoedd tramor pwysicaf y llywodraeth ar gyfer datblygu busnes lle siaredir Arabeg mae Bahrain, Oman, Kuwait, Yemen, Irac, Saudi Arabia, yr Emiraethau Arabaidd Unedig a Tiwnisia.

ARABEG YN Y DEYRNAS UNEDIG

Mae oddeutu 5–6% o ysgolion uwchradd Lloegr yn dysgu Arabeg, ond fel pwnc allgyrsiol fel arfer. Caiff ei dysgu'n eang hefyd yn y 182 o ysgolion y mae'r Gymdeithas Ysgolion Mwslimaidd yn berchen arnynt, ac yn y sector atodol.⁷⁶

Cynigiwyd Arabeg fel pwnc TGAU am y tro cyntaf ym 1995, a chafwyd 1,182 o ymgeiswyr. Erbyn 2016, mae'r nifer hwn wedi cynyddu i 4,211. Cyflwynwyd Safon Uwch mewn Arabeg yn 2002, a chafwyd 299 o ymgeiswyr. Erbyn 2016, mae nifer yr ymgeiswyr wedi codi i 749. Nid oes arholiadau ar lefel ysgol ar gael yn Arabeg yn yr Alban.

Cynigir Arabeg ar lefel gradd gan 16 o brifysgolion, ac mae'n bwnc astudio mewn dros 40 o ganolfannau ieithoedd prifysgolion.⁷⁷

Nodwyd mewn adroddiad diweddar bod y twf diweddar mewn dysgu Arabeg bron yn llwyr o achos twf ysgolion Mwslimaidd, a phrin iawn yw'r plant nad ydynt yn Fwslimiaid sy'n cael cynnig dysgu'r iaith neu'n cael eu cyflwyno i ddiwylliannau sy'n siarad Arabeg.⁷⁸

CYSYLLTIADAU RHYNGWLADOL

Mae Arabeg yn un o'r deg iaith fwyaf nodedig ar gyfer addysg rhyngwladol. Mae hyn mewn ymateb i dwf economaidd a dylanwad gwleidyddol sy'n lledaenu mewn nifer o wledydd yn y Dwyrain Canol, ynghyd â diddordeb a buddsoddiad cynyddol mewn addysg.

Mae nifer o brifysgolion y Deyrnas Unedig wedi sefydlu presenoldeb campws mewn gwledydd sy'n siarad Arabeg, yn enwedig yn yr Emiraethau Arabaidd Unedig. Mae'r rhain yn cynnwys prifysgolion Heriot-Watt a Chaerwysg, ac Ysgolion Busnes Llundain a Manceinion.

Ar hyn o bryd, mae Arabeg yn iaith allweddol ar gyfer swyddi diplomyddol a diogelwch rhyngwladol. Mae Arabeg yn iaith i wrthwynebwyr (ISIS) ac yn iaith i'r cenhedloedd a'r gwledydd y mae'r Deyrnas Unedig yn cynnal gwaith ymgysylltu amddiffyn ynddynt. Mae'r Pencadlys Cyfathrebu yn recriwtio siaradwyr nifer o ieithoedd ar hyn o bryd, gan gynnwys Arabeg.

74. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cydbwysedd Taliadau, op. cit.

75. CBI/Pearson, Helping the UK to thrive, op.cit.

76. Alcantara, *The teaching of Arabic*, op. cit.

77. UCML/AULC, Arolwg, op. cit.

78. Alcantara, *The teaching of Arabic*, op. cit.

MAE'R GEIRIAU SYDD WEDI DOD O ARABEG YN CYNNWYS:

JAR

CARAFÁN

MATRES

SERO

COFFI

TRAFFIG

COTWM

ISELDIREG NETHERLANDS

laith Germanig Orllewinol, a siaredir gan 23 miliwn o bobl fel iaith gyntaf ym mwyafrif yr Iseldiroedd, ac oddeutu 60% o Wlad Belg yw Iseldireg.

Mae'n iaith swyddogol yn Suriname ac yn rhai o ynysoedd y Caribî, sef Aruba, Curaçao a San Martin. Mae oddeutu pum miliwn o bobl yn siarad Iseldireg fel ail iaith, gan gynnwys cymunedau yn Affrica, De America a'r Caribî. Mae Iseldireg yn perthyn yn agos i Affricaneg, a siaredir yn Ne Affrica.

Mae Iseldireg yn un o ieithoedd swyddogol yr UE.

BUDDIANNAU I FUSNES

Yr Iseldiroedd yw'r farchnad allforio nad yw'n siarad Saesneg bwysicaf ond dau i'r Deyrnas Unedig, ar ôl yr Almaen a Ffrainc. Mae ei hallforion o nwyddau a gwasanaethau yn werth bron i £32 biliwn yn 2015, ac mae allforion i Wlad Belg, lle mae'r Iseldireg yn iaith swyddogol hefyd, werth ddwywaith cymaint eto.⁷⁹ Iseldireg yw'r chweched iaith y mae'r galw uchaf amdani yn ôl arolwg o hysbysebion swyddi sy'n gofyn am sgiliau iaith a gynhaliwyd yn 2017, yn enwedig ym meysydd gwasanaethau cwsmeriaid, technoleg gwybodaeth, manwerthu, cyllid a marchnata.⁸⁰

Mae Iseldireg yn newydd i restr 2017 o'r deg iaith y mae ar y Deyrnas Unedig eu hangen fwyaf, gan adlewyrchu'r cyfaint mawr o fasnach y Deyrnas Unedig sy'n mynd drwy borthladdoedd yr Iseldiroedd, ei hagosrwydd daearyddol at y Deyrnas Unedig, a'r cydweithio agos mewn meysydd megis ymchwil a chyhoeddi academaidd.

ISELDIREG YN Y DEYRNAS UNEDIG

Yn 2016, nid oedd ond 128 o ymgeiswyr ar gyfer Safon Uwch mewn Iseldireg, ffigur sydd wedi bod yn weddol sefydlog ers nifer o flynyddoedd. Roedd 451 o ymgeiswyr ar lefel TGAU yn 2016.

Dim ond tair prifysgol yn y Deyrnas Unedig sy'n cynnig cwrs Iseldireg, ac mae pob un o'r rheiny yn Lloegr. Fodd bynnag, mae un ym mhob chwe phrifysgol yn y Deyrnas Unedig yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr ddysgu Iseldireg fel pwnc allgyrsiol drwy ganolfannau ieithoedd prifysgolion.

Mae'r Iseldiroedd yn lleoliad sy'n gynyddol atyniadol i fyfyrwyr y Deyrnas Unedig sy'n dymuno gweithio dramor, gan fod sefydliadau addysg uwch y wlad yn cynnig cyrsiau gradd yn Saesneg ar bris is na phrifysgolion y Deyrnas Unedig.

CYSYLLTIADAU RHYNGWLADOL

O ran nifer y teithwyr sy'n dod i'r Deyrnas Unedig, mae'r Iseldiroedd yn y chweched safle, gyda thros ddwy filiwn o ymwelwyr yn 2016. Mae Gwlad Belg (sydd hefyd yn cynnwys siaradwyr Iseldireg) yn y nawfed safle, gydag ychydig dros filiwn o ymwelwyr. Ers 2013, mae'r Iseldiroedd hefyd wedi dod yn fwy poblogaidd fel cyrchfan i ymwelwyr o Brydain, ac erbyn hyn dyma'r wlad fwyaf poblogaidd ond chwech, gyda 2,761,000 o ymwelwyr o Brydain yn 2016.⁸¹

Mae'r English Proficiency Index yn nodi'r Iseldiroedd fel gwlad sydd â gallu uchel iawn mewn Saesneg.⁸²

79. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, *Cydbwysedd Taliadau op. cit.*

80. Brinded, *op. cit.*

81. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, *Tueddiadau Teithio, op. cit.*

82. English First, *op. cit.*

MAE GEIRIAU SYDD WEDI DOD O ISELDIREG YN CYNWYS:

GOLFF
BAMBŴ

JIN

COLSLO

LWC

WAGEN

TATŴ
FREIGHT

FFRANGEG FRANÇAIS

Mae dros 76 miliwn o bobl yn siarad Ffrangeg fel iaith gyntaf, ac amcangyfrifir bod 100–200 miliwn arall o bobl o amgylch y byd yn siarad Ffrangeg fel ail iaith.

Mae Ffrangeg yn iaith swyddogol yn Ffrainc, Canada, Gwlad Belg, y Swistir, Andora, Monaco, Haiti, Benin, Burkina Faso, Burundi, Camerŵn, Gweriniaeth Canolbarth Affrica, Chad, Comoros, Congo, Côte d'Ivoire, Djibouti, Gabon, Guinea, Mali, Niger, Rwanda, Senegal, Seychelles, Togo a Vanuatu. Gall amrywiaethau o Ffrangeg llafar amrywio cryn dipyn.

Mae Ffrangeg yn iaith swyddogol i nifer o sefydliadau rhyngwladol, gan gynnwys y Cenhedloedd Unedig, y Llys Troseddol Rhyngwladol, Sefydliad Masnach y Byd, Undeb Post y Byd, y Sefydliad Cydweithredu Islamaidd, y Sefydliad Llafur Rhyngwladol, y Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol, yr Undeb Telathrebu Rhyngwladol, yr Undeb Rhyng-seneddol, y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, Undeb Affrica, Benelux, Marchnad Gyffredin ar gyfer Dwyrain a De Affrica (a sefydliadau rhyngwladol eraill Affrica), Cyngor Ewrop, yr Undeb Ewropeaidd, NATO a'r Sefydliad dros Ddiogelwch a Chydweithrediad yn Ewrop.

BUDDIANNAU I FUSNES

Ffrainc yw'r wlad bwysicaf ond un i'r Deyrnas Unedig fel marchnad allforio nad yw'n siarad Saesneg, gyda Gwlad Belg a'r Swistir hefyd yn cyfrannu at y gwerth £69 miliwn o fusnes mewn nwyddau a gwasanaethau y mae'r Deyrnas Unedig yn ei wneud â

marchnadoedd sy'n siarad Ffrangeg (ffigurau 2015).⁸³ Mae'r ffactorau hyn hefyd yn rhoi Ffrangeg yn y safle uchaf fel yr iaith sydd ei hangen fwyaf yn seiliedig ar feini prawf economaidd. Yn ôl arolwg Addysg a Sgiliau diweddaraf CBI (2017), Ffrangeg yw'r iaith y mae'r mwyaf o ofyn amdani gan gyflogwyr sy'n chwilio am sgiliau iaith hyd heddiw (51%).⁸⁴

Mae Ffrangeg yn arbennig o ddefnyddiol fel lingua franca mewn gwledydd megis Moroco a Chambodia, sydd â gallu isel neu isel iawn yn Saesneg.⁸⁵

FFRANGEG YN Y DEYRNAS UNEDIG

Ar draws y Deyrnas Unedig, Ffrangeg yw'r iaith a gynigir amlaf i'w hastudio mewn addysg bellach ar draws y pedair gwlad, gyda mwy na 70 o brifysgolion yn cynnwys cyrsiau gradd mewn Ffrangeg. Er y gostyngiad yn niferoedd y myfyrwyr sy'n dewis gwneud ieithoedd yn yr ysgol, Ffrangeg yw'r iaith a astudir amlaf ar Safon Uwch yn dal i fod, ac mae'n cyfrif am dros 30% o geisiadau ar gyfer ieithoedd, a thros hanner yr holl geisiadau ar gyfer ieithoedd y Scottish Highers. Ffrangeg hefyd sydd â'r nifer uchaf o geisiadau ar gyfer arholiadau TGAU, neu arholiadau cyfwerth yn yr Alban. Ar lefel cynradd, mae Ffrangeg ar y blaen gyda thros 70% o ysgolion yn cynnig dysgu Ffrangeg i ddisgyblion.⁸⁶

Mae Ffrainc yn un o chwe phrif gwlad bartner y Deyrnas Unedig ar gyfer ymchwil, a disgwylir iddi aros yn y chwe uchaf hyd yn oed ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r UE.⁸⁷

CYSYLLTIADAU RHYNGWLADOL

Mae Ffrangeg wedi bod yn iaith allweddol mewn perthynas â diplomyddiaeth ers cryn amser. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn adrodd bod Ffrangeg yn iaith bwysig i'w gwaith. Mae Ffrangeg yn bwysig i NATO, ynghyd ag i Fyddin Prydain, sy'n gweithio â phartneriaid cynghrair yn Affrica, mewn partneriaeth â lluoedd nid yn unig o Ffrainc, ond hefyd o wledydd Affrica y mae Ffrangeg yn brif iaith ynddynt (e.e. Chad, Mali). Mae Ffrangeg yn iaith bwysig ar gyfer twristiaeth sy'n dod i mewn ac yn mynd allan, gan mai Ffrainc yw'r gyrchfan fwyaf poblogaidd ond un i bobl y Deyrnas Unedig sy'n teithio dramor, a marchnad mwyaf y Deyrnas Unedig ar gyfer twristiaid sy'n dod i mewn. Yn 2015, roedd mwy na phedair miliwn o ymwelwyr o Ffrainc. Mae Gwlad Belg hefyd yn y deg uchaf, gyda mwy na miliwn o ymwelwyr yn dod i'r Deyrnas Unedig oddi yno.⁸⁸

Mae'r English Proficiency Index yn nodi bod gan Ffrainc lefelau cymedrol o allu yn Saesneg.⁸⁹

83. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cydbwysedd Taliadau, *op. cit.*

84. CBI/Pearson, *Helping the UK to thrive, op. cit.*

85. English First, *op. cit.*

86. Tinsley a Board, *Tueddiadau Ieithoedd 2016–17, op. cit.*

87. Universities UK, Global Research Environment, *op. cit.*

88. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, *Tueddiadau Teithio, op. cit.*

89. English First, *op. cit.*

MAE GEIRIAU SYDD WEDI DOD O FFRANGEG YN CYNNWYS:

BATRI
TWRNAMAIN
PWRCASU
COPI
^APÊL
TWR
APPETITE

ALMAENEG DEUTSCH

Almaeneg sydd ar y brig o ran nifer y siaradwyr brodorol yn yr UE, gyda 24% o boblogaeth yr UE yn nodi Almaeneg fel eu hiaith gyntaf.

Mae amrywiaeth sylweddol rhwng tafodieithoedd llafar Almaeneg, ond mae gan ffurf safonedig gyffredin yr iaith statws swyddogol yn yr Almaen, Awstria, y Swistir a Lwcsembwrg. Caiff Almaeneg hefyd ei siarad yn Alsace-Lorraine (Ffrainc), yn Alto Adige (yr Eidal) ac yn Liechtenstein. Mae oddeutu 1.5 miliwn o siaradwyr Almaeneg yn yr Unol Daleithiau, ynghyd â chymunedau o siaradwyr Almaeneg mewn rhannau eraill o'r byd.

Almaeneg yw'r iaith fwyaf cyffredin ond naw ar y we, gyda mwy na 84 miliwn o ddefnyddwyr. Mae'n un o ieithoedd gwaith yr UE, ac mae'n iaith swyddogol i'r Sefydliad dros Ddiogelwch a Chydweithrediad yn Ewrop.

BUDDIANNAU I FUSNES

Yr Almaen yw un o bartneriaid masnachu pwysicaf y Deyrnas Unedig yn y byd, a marchnad allforio fwyaf Cymru o bell ffordd. Ar ôl yr Unol Daleithiau, dyma'r farchnad fwyaf ar gyfer allforion Prydain (yn werth dros £48.5 biliwn yn 2015), a hefyd ffynhonnell fwyaf y Deyrnas Unedig ar gyfer mewnforion, sy'n golygu mai dyma'r wlad y mae gennym y diffyg masnach mwyaf â hi. Mae'r fasnach â'r Swistir, a oedd yn werth £21 miliwn yn 2015, wedi tyfu'n sylweddol ers 2012, sy'n ei rhoi yn y pumed safle o ran prif farchnadoedd allforio'r Deyrnas Unedig. Roedd allforion i'r Awstria yn werth £2.6 biliwn arall yn 2015.⁹⁰

Yn ôl arolwg Addysg a Sgiliau 2017 CBI/Pearson, Almaeneg yw'r iaith y mae'r mwyaf o alw amdani ond un yn y diwydiant, gyda 47% o'r busnesau sy'n gofyn am ieithoedd yn nodi mai Almaeneg yw'r iaith y mae arnynt ei hangen fwyaf. Mae dadansoddiad o filiwn o hysbysebion swyddi ar wefan Adzuna hefyd yn dangos mai Almaeneg yw'r iaith fwyaf buddiol at ddibenion cyflogaeth.

ALMAENEG YN Y DEYRNAS UNEDIG

Yn draddodiadol, Almaeneg yw'r iaith sy'n cael ei dysgu amlaf ond un yn y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, yn y 10-15 mlynedd diwethaf, mae Sbaeneg wedi dod ar y blaen iddi. Er bod Almaeneg yn parhau yn y trydydd safle o ran ieithoedd a astudir ar gyfer Safon Uwch/lefel Scottish Higher, mae niferoedd wedi gostwng yn sylweddol dros y deng mlynedd diwethaf ar y lefel hwn ac ar lefel TGAU/gradd Scottish Standard. Ar lefel addysg uwch, mae Almaeneg yn parhau i fod yn y trydydd safle fel yr iaith a gynigir amlaf, gyda 60 o brifysgolion y Deyrnas Unedig yn cynnig cyrsiau ar lefel gradd (er bod rhai adrannau Almaeneg wedi'u cau yn y blynyddoedd diwethaf). Dangosodd arolwg o ganolfannau ieithoedd prifysgolion yn 2016–17 mai Almaeneg yw'r iaith fwyaf poblogaidd ond dwy fel astudiaeth allgyrsiol gan fyfyrwyr, a bod niferoedd myfyrwyr mewn canolfannau ieithoedd prifysgolion yn cynyddu. Mae myfyrwyr yn nodi cyflogadwyedd fel un o'r rhesymau am astudio Almaeneg ar y cyd â'u hastudiaethau gradd.⁹¹

Yr Almaen yw trydydd cyfrannwr mwyaf y byd at ymchwil a datblygiad, sy'n golygu bod Almaeneg yn arbennig o bwysig ym maes ymchwil gwyddonol, ac mae hyn yn ei gosod yn yr ail safle fel yr iaith wyddonol bwysicaf ar ôl Saesneg. Mae'r Almaen hefyd yn un o bump prif bartner ymchwil y Deyrnas Unedig yn y byd, ac mae'n debygol o aros yn y safle hwn ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r UE.⁹²

Mae tystiolaeth wirioneddol o bwysigrwydd Almaeneg i fusnes ac ymchwil yn egluro'r pryderon a fynegir o dro i dro gan lunwyr polisi ac academyddion ynghylch y gostyngiad yn y niferoedd sy'n astudio Almaeneg yn y Deyrnas Unedig.

CYSYLLTIADAU RHYNGWLADOL

Yr Almaen yw marchnad bwysicaf ond un y Deyrnas Unedig o ran twristiaid sy'n dod yma, gyda mwy na thair miliwn o Almaenwyr yn ymweld â'r Deyrnas Unedig yn 2015. Dyma hefyd y cheched wlad fwyaf poblogaidd i deithwyr tramor o'r Deyrnas Unedig ymweld â hi, gyda 2.7 miliwn o ymweliadau yn ystod 2015. Mae disgwyl y bydd milwyr Prydain, sydd wedi'u lleoli yn yr Almaen ers yr Ail Ryfel Byd, yn cael eu tynnu o'r wlad erbyn 2020, ac felly bydd gwersi Almaeneg atodol a roddir i'r milwyr yn dod i ben. Fodd bynnag, bydd yr angen am Almaeneg yn parhau ar gyfer y personél sy'n aros yno i gynnal a datblygu cysylltiadau agos â'r Almaen, ac ar gyfer cydweithio tebyg â gwledydd eraill sy'n siarad Almaeneg.

90. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, *Cydbwysedd Taliadau*, op. cit.

91. AULC/UCML, *Arolwg*, op. cit.

92. Universities UK, *Global Research Environment*, op. cit.

MAE GEIRIAU SYDD WEDI DOD O ALMAENEG YN CYNNWYS:

BYRGER
HAMSTER
ZEITGEIST
PŴDL
DELICATESSEN
ABSEILIO
MIWSLI
SPARERIB

EIDALEG ITALIANO

Mae'r Eidaleg yn iaith Romáwns, gydag oddeutu 70 miliwn o siaradwyr. Mae amrywiaethau rhanbarthol Eidaleg yn wahanol iawn i'r iaith safonol, ac ystyrir rhai amrywiaethau e.e. Sisileg fel iaith ar wahân gan rai.

Mae gan Eidaleg gysylltiadau agos â ieithoedd Romáwns eraill: Ffrangeg, Sbaeneg, Portiwgaleg, Rwmaneg, Catalaneg ac eraill, a chaiff ei hystyried fel yr iaith agosaf at Ladin.

Eidaleg yw iaith swyddogol yr Eidal a rhannau o'r Swistir. Caiff hefyd ei defnyddio gan gymunedau lleiafrifol mewn nifer o wledydd, gan gynnwys Malta, Libya, Somalia, Slofenia, Croatia, a chan gymunedau alltud yn yr Unol Daleithiau, y Deyrnas Unedig, Ariannin ac Awstralia.

Mae Eidaleg yn un o ieithoedd yr UE, ac yn iaith swyddogol i'r Undeb Lladin a'r Sefydliad dros Ddiogelwch a Chydweithrediad yn Ewrop.

BUDDIANNAU I FUSNES

Yr Eidal yw chweched farchnad allforio fwyaf nad yw'n siarad Saesneg y Deyrnas Unedig, ac yn 2015 roedd y farchnad yn werth mwy nag £17 biliwn i economi'r Deyrnas Unedig. Mae masnach gwasanaethau â'r Eidal wedi tyfu hyd at 78% ers 2012.⁹³

EIDALEG YN Y DEYRNAS UNEDIG

Eidaleg yw'r iaith a gaiff ei dysgu amlaf ond tair yn y Deyrnas Unedig. Mae'n boblogaidd iawn mewn addysg oedolion, a chaiff ei chynnig fel pwnc astudio ar lefel gradd mewn mwy na 40 o brifysgolion yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Eidaleg yw'r seithfed iaith fwyaf poblogaidd ar gyfer Safon Uwch (ar ôl Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg, Mandarin, Rwsieg a Phwyleg), er bod ganddi llai na 1,000 yn sefyll arholiad. Eidaleg yw'r bumed iaith fwyaf poblogaidd ar lefel TGAU, ar ôl Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg a Phwyleg, er bod y niferoedd sy'n sefyll arholiad yn isel iawn (4,943 yn 2016). Fodd bynnag, wrth i Ffrangeg ac Almaeneg weld lleihad sylweddol yn nifer y ceisiadau yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r nifer sy'n gwneud Eidaleg wedi parhau'n weddol gyson gyda rhai amrywiadau bach.⁹⁴

Mae cymunedau sylweddol o siaradwyr Eidaleg ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig, er mae'n bosibl nad adroddir am y niferoedd cyflawn, gan fod y cymunedau wedi sefydlu a chymathu cystal.

CYSYLLTIADAU RHYNGWLADOL

Mae Eidaleg yn bwysig iawn ar gyfer ymwelwyr â'r Deyrnas Unedig ac o'r Deyrnas Unedig. Yr Eidal yw drydedd gyrchfan fwyaf poblogaidd i dwristiaid o'r Deyrnas Unedig, ar ôl Sbaen a Ffrainc, gyda mwy na phedair miliwn o ymwelwyr yn mynd i'r Eidal yn 2015.⁹⁵

93. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cydbwysedd Taliadau *op. cit.*

94. Data a gasglwyd gan Alcantara Communications o ffigurau a gyhoeddwyd yn www.jcq.org.uk

95. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Tueddiadau Teithio, *op. cit.*

MAE GEIRIAU SYDD WEDI DOD O EIDALEG YN CYNNWYS:

ARCÊD
CARTŴN
TERAS
PIANO
CORIDOR
BROCOLI
BANKRUPT
GRAFFITI

JAPANEG

日本語

laith rhanbarth Dwyrain Asia yw Japaneg, a dyma iaith swyddogol Japan. Mae hi yn y nawfed safle o ran nifer y siaradwyr ledled y byd, gyda thros 120 miliwn o siaradwyr.

Er bod Japaneg yn defnyddio nifer o wahanol sgriptiau, ac y caiff ei hysgrifennu'n fertigol yn dechrau ar y dde, caiff nifer o destunau heddiw eu hysgrifennu'n llorweddol i ganiatáu cynnwys geiriau Saesneg, rhifau Arabeg a fformiwlaâu mathemategol a chemegol.

BUDDIANNAU I FUSNES

Japan yw economi fwyaf y byd ond dwy, ac mae'n gyfrannwr sylweddol i ffyniant y Deyrnas Unedig – fel marchnad allforio ac fel buddsoddwr mawr. Yn 2015, roedd gwerth allforion y Deyrnas Unedig i Japan dros £10.5 biliwn, gan osod Japan yn y degfed safle o ran marchnadoedd allforio mwyaf y Deyrnas Unedig nad ydynt yn siarad Saesneg. Mae masnach gwasanaethau i Japan wedi tyfu'n gryf yn ystod y blynyddoedd diwethaf.⁹⁶

Ymhlith allforion y Deyrnas Unedig i Japan mae cemegion, deunyddiau fferyllol, cyfansoddion modurol a cheir, peiriannau trydanol ac offer gwyddonol; mae nifer o gwmnïau Prydain, gan gynnwys manwerthwyr, yn gweithredu yn Japan. Gall llwyddiant yn Japan gynyddu safle cystadleuol byd-eang cwmni, a dod ag enillion ariannol a thechnolegol sylweddol.

Mae'r Deyrnas Unedig yn elwa ar fuddsoddiad sylweddol Japan, ac mae cwmnïau Japaneaidd sydd wedi'u lleoli yn y Deyrnas Unedig yn cyflogi niferoedd sylweddol o bobl ym meysydd gweithgynhyrchu ceir, technoleg gwybodaeth a'r sectorau fferyllol a gofal iechyd. Mae cwmnïau Japaneaidd yn arloesol iawn; Japan yw ail fuddsoddwr mwyaf y byd ym maes ymchwil a datblygiad, ac mae'n bartner ymchwil pwysig i'r Deyrnas Unedig.

JAPANEG YN Y DEYRNAS UNEDIG

Mae nifer y bobl ifanc sy'n astudio Japaneg hyd at Safon Uwch yn y Deyrnas Unedig yn isel iawn, gyda dim ond 236 o bobl yn sefyll yr arholiad yn 2016. Mae'r ffigur hwn wedi aros yn weddol sefydlog dros nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, er i 924 o ddisgyblion astudio TGAU mewn Japaneg yn 2016, mae nifer y rhai sydd wedi gwneud hynny wedi gostwng oddeutu 19% dros y pum mlynedd diwethaf.⁹⁷

Gellir astudio Japaneg i lefel gradd mewn 24 o brifysgolion yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Caiff hefyd ei chynnig fel pwnc allgyrsiol gan ganolfannau ieithoedd mewn mwy na 50 o brifysgolion Prydain, sy'n golygu ei bod yn y chweched safle o ran ieithoedd a gynigir fwyaf. O ran poblogrwydd ymhlith myfyrwyr, mae hi yn y pedwerydd safle.

CYSYLLTIADAU RHYNGWLADOL

Mae'r English Proficiency Index yn rhoi Japan fel gwlad sydd â gallu isel yn Saesneg.⁹⁸

96. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cydbwysedd Taliadau, *op. cit.*

97. Data a gasglwyd gan Alcantara Communications o ffigurau a gyhoeddwyd yn www.jcq.org.uk

98. English First, *op. cit.*

MAE GEIRIAU SYDD WEDI DOD O JAPANEG YN CYNWYS:

EMOJI
CARAOCE
SUDOKO
CIMONO
SWSHI
ANIME

TSIEINĒEG MANDARIN

简体中文

Mae Tsieinëeg yn cyfeirio at grŵp o ieithoedd sydd â chyfanswm o dros 1,200 miliwn o siaradwyr brodorol. Tsieinëeg Mandarin (Putonghua), yr iaith sydd â statws swyddogol yn Tsieina, Taiwan a Singapore, yw'r iaith â'r nifer fwyaf o siaradwyr yn y byd, gyda bron i 900 miliwn o siaradwyr, a'r rheiny yn Tsieina bennaf.⁹⁹

Caiff iaith Tsieinëeg arall, Cantoneg, ei siarad gan oddeutu 45 miliwn o bobl yn Tsieina, ac mae'n un o'r ieithoedd a siaredir fwyaf mewn cymunedau Tsieineaidd y tu allan i Tsieina.

Mae Tsieinëeg Mandarin yn un o ieithoedd swyddogol y Cenhedloedd Unedig a'r Llys Troseddol Rhyngwladol.

BUDDIANNAU I FUSNES

Tsieina yw ail economi fwyaf y byd, a chweched marchnad allforio nad yw'n siarad Saesneg y Deyrnas Unedig, yn werth bron i £17 biliwn yn 2015.¹⁰⁰ Yn ôl CBI, mae cyfran y busnesau sy'n nodi Tsieinëeg Mandarin fel iaith bwysig wedi cynyddu o 25% yn 2012 i 36% yn 2017.

O ystyried twf cyflym a statws Tsieina fel pŵer mawr sy'n dod i'r amlwg, mae heriau a chyfleoedd busnes Tsieina yn fawr. Mae'r Deyrnas Unedig yn un o brif fuddsoddwyr Ewrop yn Tsieina, ac o ganlyniad i hyn rydym yn derbyn buddsoddiad gwerthfawr gan Tsieina. Mae'r ddau ddegawd nesaf yn debygol o weld twf sylweddol mewn galw gan ddsbarth canol Tsieina, sy'n tyfu'n gyflym, am nwyddau a gwasanaethau gwerth uwch, ynghyd â chynnydd sylweddol mewn gweithgarwch rhyngwladol gan gwmnïau mawr Tsieina. Mae'n bwysig bod y Deyrnas Unedig yn parhau i elwa ar dwf Tsieina, drwy ragor o allforion a lefelau uwch o fuddsoddiad gan Tsieina, yn enwedig o ystyried

penderfyniad y Deyrnas Unedig yn 2016 i ymadael â'r UE, a'r bwriad i ddatblygu perthnasau rhyngwladol newydd y tu hwnt i Ewrop.

TSIEINĒEG YN Y DEYRNAS UNEDIG

Mae Tsieina wedi sefydlu rhwydwaith byd-eang o Sefydliadau Confucius i hyrwyddo Tsieinëeg Mandarin ac agweddau ar ddiwylliant Tsieineaidd. Mae 29 o'r sefydliadau hyn wedi'u lleoli ym mhrifysgolion y Deyrnas Unedig, ond mae hefyd rwydwaith sy'n tyfu o 143 o ddsbarthiadau Confucius mewn ysgolion.¹⁰¹

Mae adrannau addysg yr Alban a Lloegr yn cefnogi cyflwyno dysgu Tsieinëeg mewn ysgolion. Mae gwaith Sefydliad Confucius yn ysgolion yr Alban i hyrwyddo dysgu Tsieinëeg yn cefnogi strategaeth pum mlynedd ehangach yr Alban i ddatblygu ei pherthynas â Tsieina.¹⁰² Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn y niferoedd sy'n sefyll arholiadau cenedlaethol ac uwch, er bod y niferoedd yn weddol isel. Ers y flwyddyn academaidd 2016–17, mae'r Adran Addysg yn Lloegr wedi bod yn ariannu Rhaglen Rhagoriaeth Mandarin ddwys yn ysgolion uwchradd Lloegr, gan dargedu 5,000 o ddisgyblion i'w rhoi ar y llwybr i ddod yn rhugl mewn Tsieinëeg Mandarin erbyn 2020.¹⁰³ Roedd 2,849 o geisiadau Safon Uwch mewn Tsieinëeg Mandarin yn 2016,

a chynyddodd nifer y ceisiadau ar gyfer TGAU o 2,541 yn 2012 i 4,044 yn 2016.

Mae Tsieinëeg ar gael ar lefel gradd mewn 39 o brifysgolion yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Ar hyn o bryd, caiff hefyd ei chynnig fel pwnc astudio gan fwy na 60 o ganolfannau iaith prifysgolion.¹⁰⁴

CYSYLLTIADAU RHYNGWLADOL

Gyda'r darlun rhyngwladol yn prysur newid, a phenderfyniad y Deyrnas Unedig i ymadael â'r UE, mae ieithoedd newydd yn dod yn strategol bwysig i'r Deyrnas Unedig wrth iddi weithio i ailddiffinio ei pherthnasau rhyngwladol. Bydd twristiaeth yn dod yn gynyddol bwysig, wrth i batrymau teithio'r dosbarth canol sy'n prysur dyfu yn Tsieina ac India newid. Bydd angen deall dyheadau a chymhellion teithwyr o'r ddwy wlad hon er mwyn manteisio ar werth y marchnadoedd hyn.¹⁰⁵

Erbyn 2020, bydd Tsieina yn un o bedair gwlad fydd yn cyfrif am dros hanner poblogaeth rhwng 18–22 oed y byd. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n wlad flaenoriaeth ar gyfer addysg ryngwladol, nid yn unig gan fod ganddi un o systemau addysg fwyaf y byd, ond hefyd gan y disgwylir iddi anfon y nifer fwyaf o fyfyrwyr dramor.

Mae gan nifer o brifysgolion y Deyrnas Unedig bresenoldeb campws yn Tsieina, gan gynnwys prifysgolion Nottingham a Surrey, ac Ysgol Fusnes Manceinion.

99. Data o www.ethnologue.com

100. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cydbwysedd Taliadau, *op. cit.*

101. http://english.hanban.org/node_10971.htm

102. www.gov.scot/Publications/2012/12/7734

103. <https://www.britishcouncil.org/education/schools/support-for-languages/partnerships-courses-resources/mandarin-excellence-programme>

104. UCML/AULC, Arolwg, *op. cit.*

105. Comisiwn Teithio Ewrop (2014) Target Market: China. Ar gael drwy: <http://ec.europa.eu/DocsRoom/documents/15746/attachments/1/translations/en/renditions/native>

MAE GEIRIAU SYDD WEDI DOD O IEITHOEDD TSIEINĒEG YN CYNNWYS:

FENG SHUI

TEICŴN

WOC

FENG SHUI

TE

SOI

JINSENG

PORTIWGALEG PORTUGUÊS

Mae gan Bortiwgaleg oddeutu 219 miliwn o siaradwyr iaith gyntaf, y mwyafrif o'r rhain ym Mrasil (dros 90%) a Phortiwgal, ac felly dyma'r seithfed iaith a siaredir fwyaf yn y byd.

Ynghyd â bod yn iaith swyddogol ym Mrasil a Phortiwgal, mae gan Bortiwgaleg statws fel ail iaith neu iaith ychwanegol yn Angola, Mozambique, Cape Verde, Guinea-Bissau, São Tomé-Príncipe a Timor-Leste. Mae Portiwgaleg Ewrop a Brasil yn wahanol i raddau, ond mae'r ddau fath yn ddigon agos at ei gilydd i'w deall. Mae nifer o greoleithoedd sy'n seilliedig ar Bortiwgaleg yr ystyrir eu bod yn ieithoedd ar wahân.

Mae Portiwgaleg yn un o ieithoedd gwaith yr Undeb Ewropeaidd, a chaiff hefyd ei defnyddio gan y sefydliadau rhyngwladol canlynol: Sefydliadau'r Taleithiau Ibero-Americanaidd, yr Undeb Affricanaidd, y Farchnad Gyffredin ar gyfer Dwyrain a De Affrica, Cymuned Economaidd Taleithiau Gorllewin Affrica, Sefydliad Taleithiau America, Cymuned Ddatblygu De Affrica ac Undeb Cenhedloedd De America.

BUDDIANNAU I FUSNES

Brasil yw nawfed economi fwyaf'r byd, yn werth 34% o gynnyrch domestig gros De America, ac mae ganddi bwysigrwydd rhanbarthol sylweddol mewn trafodaethau masnach. Er nad yw economi Brasil wedi datblygu fel y rhagwelodd economegwyr blaenllaw rai blynyddoedd yn ôl, mae ei photensial dal i fod yn fawr ac ni ddylid anwybyddu hynny.

Er mai'r UE yw partner masnachu mwyaf Brasil, nid yw perthynas masnach a buddsoddi dwyochrog y Deyrnas Unedig a Brasil wedi'i datblygu ddigon, efallai yn rhannol o achos heriau economaidd mewnol diweddar Brasil. Mae cyfleoedd i adeiladu ar gydweithrediad gwyddonol llwyddiannus y Deyrnas Unedig a Brasil hyd yn hyn, gan gynnwys ym meysydd fferyllol ac ynni.

Mae Portiwgal yn bartner masnachu sefydledig i'r Deyrnas Unedig, ac mae oddeutu 80,000 o ddinasyddion Prydain yn byw ac yn gweithio yno am ran o'r flwyddyn. Gwelir cysylltiadau cryf â Phortiwgal fel llwybr i'r Deyrnas Unedig at farchnad Portiwgaleg ei hiaith, sydd â 250 miliwn o bobl.¹⁰⁶

PORTIWGALEG YN Y DEYRNAS UNEDIG

Mae nifer y bobl ifanc sy'n astudio Portiwgaleg ar gyfer Safon Uwch a TGAU yn isel iawn (444 ar gyfer Safon Uwch a 2,341 ar gyfer TGAU yn 2016).¹⁰⁷ Ni chaiff Portiwgaleg ei dysgu'n eang ar lefel gradd, er bod 24 o brifysgolion y Deyrnas Unedig yn cynnig cyrsiau gradd.

CYSYLLTIADAU RHYNGWLADOL

Mae ymddangosiad pwerau newydd, gan gynnwys Brasil, a'u potensial a'u gallu i ddylanwadu'n sylweddol ar drafodaethau gwleidyddol a masnachol yn cynyddu'r angen i ddiplomyddion a busnesau allu gweithredu yn eu hieithoedd.

Portiwgal oedd y chweched lleoliad gwyliau mwyaf poblogaidd i dwristiaid o'r Deyrnas Unedig yn 2015, gyda 2.8 miliwn o ymweliadau.¹⁰⁸

Mae'r English Proficiency Index yn nodi mai isel yw gallu Brasil mewn Saesneg, a bod Portiwgal â gallu uchel.¹⁰⁹

106. Yr Adran Masnachu Rhyngwladol (2015) *Doing business in Portugal*. Ar gael drwy: <https://www.gov.uk/government/publications/exporting-to-portugal/doing-business-in-portugal-portugal-trade-and-export-guide>

107. Data a gasglwyd gan Alcantara Communications o ffigurau a gyhoeddwyd yn www.jcq.org.uk

108. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, *Tueddiadau Teithio*, op. cit.

109. English First, op. cit.

MAE GEIRIAU SYDD WEDI DOD O BORTIWGALEG YN CYNNWYS:

BARÓC
CARAMEL
BUFFALO
LAUNCH
MARMALÊD
MONSŴN
EMBARAS
CASHEW

RWSIEG РУССКИЙ

Rwsieg yw'r wythfed iaith yn y byd o ran nifer y siaradwyr, gyda 140–150 miliwn o siaradwyr brodorol, a chaiff ei siarad fel ail iaith gan dros 120 miliwn o bobl yn Rwsia a gwledydd cyfagos yng Nghanolbarth Asia.

Mae ganddi statws swyddogol yn Rwsia ac yn Belarus, Kazakhstan a Kyrgyzstan. Caiff ei hysgrifennu â'r wyddor Syrilig. Ieithoedd eraill sy'n defnyddio ffurfiau ar sgript Syrilig yw Bwlgareg, Macedoneg, Serbeg, Wcreineg a Belorwseg.

Mae Rwsieg yn un o ieithoedd swyddogol y Cenhedloedd Unedig, y Llys Troseddol Rhyngwladol, Sefydliad dros Ddiogelwch a Chydweithrediad yn Ewrop, a Sefydliad Cydweithredol Shanghai.

BUDDIANNAU I FUSNES

Fel un o'r gwledydd y'u gelwir yn BRIC, nodwyd Rwsia rai blynyddoedd yn ôl fel un o bedwar pŵer y byd sy'n dod i'r amlwg a oedd ag economi sy'n tyfu'n hynod o gyflym. Fodd bynnag, arweiniodd cyfuniad o brisiau olew isel ar draws y byd, a sancsiynau economaidd ar ôl i Rwsia gyfeddiannu Crimea, at ostyngiad difrifol yng ngwerth y rwbl yn 2014–15. Arweiniodd dirywiad difrifol economi Rwsia at ostyngiad yng ngwerth allforion o'r Deyrnas Unedig o oddeutu 50% yn ystod y cyfnod. Daeth gwerth ein hallforion i Rwsia yn 2015 i £5.6 biliwn.¹¹⁰

RWSIEG YN Y DEYRNAS UNEDIG

Yn 2016, roedd dros 1,232 o geisiadau ar gyfer arholiad Safon Uwch mewn Rwsieg, sy'n golygu bod Rwsieg yn un o'r ieithoedd prin a welodd gynnydd mewn niferoedd, gyda cheisiadau ar gyfer Safon Uwch wedi bron â dyblu mewn deng mlynedd. Mae'n debygol bod rhan helaeth o'r cynnydd hwn o achos siaradwyr brodorol Rwsieg neu siaradwyr ieithoedd Slafaidd eraill sy'n mynychu ysgolion gwladol ac annibynnol.¹¹¹ Roedd bron i 2,300 o geisiadau ar gyfer TGAU Rwsieg yn 2016. Mae hyn hefyd yn dangos cynnydd sefydlog dros ddeng mlynedd. Mae'r ffigurau hyn yn gosod Rwsia yn y degfed safle mewn perthynas â nifer y ceisiadau ar gyfer ieithoedd ar lefel TGAU, ac yn y pumed safle ar gyfer Safon Uwch.

Gellir astudio Rwsieg ar lefel gradd mewn 20 o brifysgolion Lloegr a'r Alban (ond nid yng Nghymru na Gogledd Iwerddon). Mae mwy na 50% o ganolfannau iaith prifysgolion yn cynnig Rwsieg fel pwnc allgyrsiol.

CYSYLLTIADAU RHYNGWLADOL

Mae'r English Proficiency Index yn nodi mai isel yw gallu Rwsia mewn Saesneg. Fe leihaodd pwysigrwydd Rwsieg at ddibenion diogelwch ar ôl diwedd y Rhyfel Oer, ond mae hi nawr yn dod i'r amlwg unwaith eto.¹¹²

110. ONS, Balance of payments *op. cit.*

111. Tinsley and Board (2016) Language Trends 2015–16, British Council/Education Development Trust, page 40.

112. English First, *op. cit.*

MAE GEIRIAUSYDD WEDI DOD O RWSIEG YN CYNNWYS:

FODCA
MAMOTH
SOFIET
CEFFÎR
APARTSHIC
PAFLOFA
INTELLIGENTSIA

SBAENEG ESPAÑOL

Sbaeneg yw'r iaith sydd â'r nifer fwyaf ond un o siaradwyr iaith gyntaf yn y byd, gydag oddeutu 437 miliwn o siaradwyr brodorol.

Mae ganddi statws swyddogol mewn 21 o wledydd: Andora, Ariannin, Bolifia, Chile, Colombia, Costa Rica, Ciwba, y Weriniaeth Ddominicaidd, Ecwador, Guinea Cyhydeddol, El Salvador, Guatemala, Honduras, Mecsico, Nicaragua, Panama, Paraguay, Periw, Uruguay a Sbaen, ac mae hefyd yn iaith swyddogol yn Puerto Rico.

Ym Mecsico y mae dros 20% o'r holl siaradwyr Sbaeneg iaith gyntaf, ac mae 30-40 miliwn o siaradwyr brodorol yn yr Unol Daleithiau, sy'n golygu mai dyma'r wlad sydd â'r lleiafrif mwyaf yn siarad Sbaeneg. Mae iaith safonol Sbaen yn wahanol i amrywiaethau'r iaith yn Ne America, ond mae modd deall y naill a'r llall.

Mae Sbaeneg yn un o ieithoedd swyddogol y Cenhedloedd Unedig, y Llys Troseddol Rhyngwladol, Sefydliad Masnach y Byd, y Sefydliad Llafur Rhyngwladol, yr Undeb Telathrebu Rhyngwladol, yr Undeb Lladinaidd, yr Undeb Affricanaidd, Marchnad Gyffredin Canolbarth America, yr Undeb Ewropeaidd, Mercosur, Cytundeb Masnach Rydd Gogledd America (NAFTA), Sefydliad dros Ddiogelwch a Chydweithrediad yn Ewrop, Sefydliad Taleithiau America ac Undeb Cenhedloedd De America.

BUDDIANNAU I FUSNES

Mae Sbaen yn yr wythfed safle o ran marchnadoedd allforion mwyaf y Deyrnas Unedig nad ydynt yn siarad Saesneg, ac yn werth dros £15 biliwn yn 2015.¹¹³

Gyda phoblogaeth gyfunol o dros 185 miliwn o bobl, nodwyd Chile, Colombia a Mecsico fel marchnadoedd cyfle i'r Deyrnas Unedig, ac mae gallu'r tair gwlad yn Saesneg yn isel neu'n isel iawn.¹¹⁴ Mecsico yw un o'r cenhedloedd masnachu mwyaf agored yn y byd, gyda rhwydwaith eang o gytundebau masnach dwyochrog, a disgwylir mai dyma fydd seithfed economi fwyaf y byd erbyn 2050.¹¹⁵ Y Deyrnas Unedig yw pumed buddsoddwr mwyaf Mecsico.

Nododd 45% o ymatebwyr arolwg Addysg a Sgiliau CBI/Pearson yn 2017 fod Sbaeneg yn ddefnyddiol i'w busnes, gan ddangos cynnydd o 37% yn 2012.¹¹⁶ Mae'r CBI yn nodi bod y Deyrnas Unedig wedi cynnal gwarged masnach â De America ers 2011, a bod lle i adeiladu ar y record hwn.¹¹⁷

SBAENEG YN Y DEYRNAS UNEDIG

Sbaeneg bellach yw'r ail iaith fwyaf poblogaidd ar gyfer Safon Uwch ar ôl Ffrangeg, ar ôl cymryd lle Almaeneg yn 2005. Gyda 8,460 o geisiadau yn 2016, cynnydd o 32% mewn deng mlynedd, dyma'r unig iaith sydd heb weld gostyngiad blynyddol. Hi hefyd yw'r ail iaith fwyaf poblogaidd ar gyfer TGAU, gyda mwy na 92,000 o geisiadau yn 2016. Yn yr Alban, mae nifer y ceisiadau ar gyfer arholiadau Sbaeneg ar bob lefel ysgol hefyd yn parhau i dyfu, wrth i niferoedd ceisiadau ieithoedd Ewropeaidd eraill gwmpo.

Cynigir Sbaeneg ar lefel gradd gan 70 o brifysgolion y Deyrnas Unedig, ac mae llai o adrannau Sbaeneg wedi cau na ieithoedd eraill. Dangosodd arolwg o ddarpariaeth ieithyddol ar draws y sefydliad mewn prifysgolion a gynhaliwyd yn 2016 mai Sbaeneg yw'r iaith fwyaf poblogaidd ymhlith myfyrwyr.¹¹⁸

CYSYLLTIADAU RHYNGWLADOL

Sbaen yw'r wlad fwyaf poblogaidd i fynd iddi gan bobl y Deyrnas Unedig, gyda thros 14 miliwn o ymwelwyr yn 2015. Twristiaid o Sbaen i'r Deyrnas Unedig yw'r trydydd grŵp mwyaf nad ydynt yn siarad Saesneg, ar ôl ymwelwyr o Ffrainc a'r Almaen, gyda niferoedd yn cynyddu'n flynyddol ar gyfartaledd o 4.6%.¹¹⁹

113. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, *Cydbwysedd Taliadau*, op. cit.

114. Gweler Siabrau Masnach Prydain: www.exportbritain.org.uk

115. Siabrau Masnach Prydain, *Cipluniau o'r Farchnad: Mecsico*. Ar gael drwy: <http://exportbritain.org.uk/market-snapshots/mexico.html>

116. CBI (2012) Learning to grow. Arolwg Addysg a Sgiliau 2012, tudalen 57.

117. CBI/Pearson, *Helping the UK to thrive*, op. cit., tudalen 34.

118. UCML/AULC, *Arolwg*, op. cit.

119. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, *Tueddiadau Teithio*, op. cit.

MAE GEIRIAUSYDD WEDI DOD O SBAENEG YN CYNNWYS:

AFOCADO
BOLERO
CANIBAL
EMBARGO
MOJITO
CARGO
SALSA

ATODIAD

MATRICES O BWYSOLIAD A SGORIAU DANGOSYDDION IEITHOEDD

IEITHOEDD	CYFANSWM	DANGOSYDD 1: ALLFORION CYFREDOL Y DEYRNAS UNEDIG	DANGOSYDD 2: ANGHENION IAITH BUSNESAU'R DEYRNAS UNEDIG	DANGOSYDD 3: BLAENORIAETHAU MASNACHU LLYWODRAETH Y DEYRNAS UNEDIG YN Y DYFODOL	DANGOSYDD 4: EBLAENORIAETHAU MASNACHU LLYWODRAETH Y DEYRNAS UNEDIG YN Y DYFODOL
Sbaeneg	64.5	4	8	3	1
Mandarin	59	6	7	3	4
Ffrangeg	57	9	10	3	
Arabeg	50.5	5	6	6	2
Almaeneg	47	10	9	2	
Eidaleg	30.5	7		1	
Iseldireg	26.5	8	4	1.5	
Portiwgaleg	22.5			1	
Japaneg	20	3	3	1	
Rwsieg	15.5		1.5	0.5	
Pwyleg	14		5	1	4
Maleieg	12			1	4
Twrceg	10			1	4
Hindi a ieithoedd eraill India	8.5			2	4
Thai	7			1	4
Ffarsi (Perseg)	6			1	
Tseinëeg Cantoneg/ieithoedd eraill Tsieina	5.5	1	1.5	1	2
Daneg	5			1	
Indonezeg	5			1	4
Groeg	4				
Corëeg	4			1	
Fietnameg	4				4
Ieithoedd eraill Affrica	3			1	2
Azari	3			1	
Kazakh	3			1	
Mongoleg	3			1	
Swedeg	3	2		1	
Wrdw	3			1	
Khmer	2				
Lao	2				
Sinhala	2				
Swahili	2			2	
Tamil	2				
Ffinneg	1			1	
Lithwaneg	1			1	
Norwyeg	1			1	
Ieithoedd De Affrica	1			1	
Tagalog	1			1	
Wcreineg	1			1	
Armeneg	0.5			0.5	
Bengaleg	0.5			0.5	
Tsieceg	0				
Pashto	0				
Other Ieithoedd eraill India					2
Yoruba/Ieithoedd Nigeria	1				1
Cyfanswm	516	55	55	48	42

Fel y nodwyd eisoes gydol yr adroddiad hwn, nid y nod yw darparu ateb holl-gynhwysol i'r cwestiwn ymchwil, ond ysgogi trafodaeth a meddwl mwy strategol ynghylch gwerth a defnydd sgiliau ieithoedd tramor. Mae'r dewis o ddangosyddion a'r pwysoliad a roddir i bob un yn seiliedig ar farn ac ymarferoldeb.

Mae'n bosibl y byddai ymchwilwyr eraill, sydd â safbwynt gwahanol ac ar adegau gwahanol, o'r farn bod dangosyddion eraill yn fwy priodol. At ddibenion tryloywder, darperir y nodiadau esboniadol canlynol.

Rydym wedi gweithio â chyfanswm o 516 o bwyntiau, gyda 200 o'r rheiny'n berthnasol i ffactorau economaidd pur

(dangosyddion 1–4), mae 211 mewn perthynas â ffactorau diplomyddol, diwylliannol a diogelwch (dangosyddion 5–8), ac mae 105 mewn perthynas â ffactorau cydbwysu (dangosyddion 9 a 10).

Darperir y sail tystiolaeth a'r rhesymeg dros ddynodi'r pwyntiau ar gyfer pob dangosydd isod.

DANGOSYDD	SAIL TYSTIOLAETH	SGORIO
1.	Ffigurau cydbwysedd taliadau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. ¹²⁰	Rhoddydwyd cyfanswm o 55 pwynt i'r deg gwlad uchaf nad ydynt yn siarad Saesneg, gan ddechrau â 10 i'r pwysicaf (Almaeneg), 9 i'r nesaf (Ffrangeg) ac yn y blaen.
2.	Ieithoedd a nodwyd fel rhai defnyddiol yn ôl arolwg Addysg a Sgiliau CBI/Pearson yn 2017. ¹²¹	Rhoddydwyd cyfanswm o 55 pwynt, gan ddechrau â 10 i'r iaith a nodwyd fel y fwyaf defnyddiol (Ffrangeg), 9 i'r nesaf (Almaeneg), ac ati.
3.	Ieithoedd y gwledydd a dargedir gan yr Adran Fasnachu Rhyngwladol. ¹²²	Rhoddydwyd cyfanswm o 48 pwynt, un i bob gwlad a gafodd ei chrybwyll, a 0.5 pwynt lle roedd ail iaith gref.
4.	Adroddiad gan y Ganolfan Economaidd ar Ymchwil Busnes ar gyfleoedd i fusnesau bach a chanolig ar ôl Brexit. ¹²³	Rhannwyd 42 pwynt rhwng ieithoedd y deg gwlad a amlygwyd yn yr adroddiad.
5.	Cyfweliadau â staff y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad, ynghyd ag ymchwil ddesg.	Rhannwyd cyfanswm o 49 pwynt ar draws y ddwy lefel o ieithoedd blaenoriaeth a sefydlwyd gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, gan ymgorffori gwybodaeth o waith recriwtio'r Pencadlys Cyfathrebu.
6.	Ieithoedd lle mae diddordeb gan y cyhoedd ar lawr gwlad yn ei dysgu, fel a fesurwyd yn ôl nifer y dosbarthiadau nos rhan amser. ¹²⁴	Rhannwyd cyfanswm o 55 pwynt rhwng y deg prif iaith, gan ddechrau â 10 iaith a gynigir fwyaf (Sbaeneg), 9 i'r nesaf (Eidaleg), ac ati.
7.	Ieithoedd sy'n gysylltiedig â gwledydd sy'n derbyn y nifer fwyaf o ymwelwyr o'r Deyrnas Unedig. ¹²⁵	Rhannwyd 52 o bwyntiau rhwng yr wyth man uchaf nad ydynt yn siarad Saesneg gan ddechrau â 10 i Sbaen, 9 i Ffrainc, ac ati.
8.	Ffigurau ar gydweithio rhyngwladol mewn addysg: ymchwil cydweithredol fel a fesurir yn ôl nifer y cyhoeddiadau ar y cyd, myfyrwyr rhyngwladol yn dod i'r Deyrnas Unedig, a myfyrwyr addysg uwch y Deyrnas Unedig yn mynd i wledydd eraill. ¹²⁶	Nodwyd cyfuniad o ddeg prif iaith o'r tair ffynhonnell a ddefnyddiwyd, gyda chyfanswm o 55 o bwyntiau wedi'u rhannu, gan ddechrau â 10 i'r iaith fwyaf nodedig (Ffrangeg), 9 i'r nesaf (Almaeneg) ac ati.
9.	Ieithoedd a siaredir mewn gwledydd sydd â lefel is o allu mewn Saesneg, fel a fesurir gan yr English Proficiency Index. ¹²⁷	Rhoddydwyd un pwynt i bob gwlad oedd â gallu 'cymedrol', dau bwynt i'r rhai â gallu 'isell', a thri phwynt i'r rhai â gallu 'isell iawn gan gynhyrchu rhestr o 15 o ieithoedd gyda thri phwynt neu fwy, a rhannwyd 51 o bwyntiau rhyngddynt i'w trosglwyddo i'n sgoriau ni. Ni roddwyd unrhyw bwyntiau i ieithoedd gwledydd oedd â lefelau Saesneg 'uchel' neu uchel iawn.
10.	Presenoldeb ieithoedd ar y we fel y'i mesurwyd gan Internet World Stats. ¹²⁸	Rhannwyd cyfanswm o 54 o bwyntiau ymhlith y naw iaith (ac eithrio Saesneg) sydd â'r mwyaf o bresenoldeb ar y we, gan ddechrau â 10 pwynt i'r mwyaf (Tsieinëeg Mandarin), 9 i'r nesaf (Sbaeneg), ac ati.

120. Cydbwysedd Taliadau a thablau daearyddol blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol, cyhoeddwyd Chwefror 2017: <https://www.ons.gov.uk/economy/nationalaccounts/balanceofpayments/adhocs/006656balanceofpaymentsannualgeographicaldatatables>

121. CBI/Pearson (2017) Helping the UK to thrive. Arolwg Addysg a Sgiliau.

122. Yr Adran Masnach Rhyngwladol (2017) '2017 must be the 'Year of Exporting'', datganiad newyddion, 9 Ionawr 2017.

123. Canolfan Ymchwil Economeg a Busnes (2016) Thinking Global, the route to UK exporting success, World First, Hydref 2016.

124. www.hotcourses.co.uk

125. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol 'Tueddiadau Teithio': Top 10 countries visited by UK residents, 2016.

126. Ffynonellau'r British Council, gweler tudalennau 25, 26.

127. www.ef.co.uk/epi/

128. www.internetworldstats.com/stats7.htm

DIOLCHIADAU

Golygydd: Alice Campbell-Cree
Golygydd Cyfres: Mona Lotten

ISBN 978-0-86355-883-2

© **British Council 2018/H143**

Y British Council yw sefydliad rhyngwladol y Deyrnas Unedig
ar gyfer cysylltiadau diwylliannol a chyfleoedd addysgol.